

# Agor strydoedd ar gyfer chwarae

## Pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid yng Nghymru

Mawrth 2019

© Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ar wahân i'r offer i gynorthwyo, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

ISBN: 978-1-9160226-3-8

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FH

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

**www.chwaraecymru.org.uk**

Mae Playing Out yn fudiad gaiff ei arwain gan rieni a thrigolion leded y DU sy'n adfer rhyddid plant i chwarae allan ar y strydoedd ac yn y mannau ble maent yn byw er budd eu hiechyd, eu hapusrwydd a'u hymdeimlad o berthyn. Yn ogystal â darparu cyngor a hyfforddiant i awdurdodau lleol a mudiadau cymunedol, mae Playing Out yn cefnogi trigolion i weithredu ar eu strydoedd eu hunain a thu hwnt.

**www.playingout.net**

Mae Chwarae Cymru yn elusen cofrestredig, rhif 1068926
Cwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 3507258
Cofrestrwyd yng Nghymru

# Cynnwys


## Y pecyn cymorth

Cyflwyniad 4

Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth? 5

Pam gafodd y pecyn ei ddatblygu? 5

Beth mae wedi ei ddylunio i'w wneud? 5

## Adran 1: Cefndir

Chwarae ac adennill y stryd 8

Buddiannau chwarae stryd 8

Modelau 9

Deddfwriaethau 10

Meddwl am yswiriant 11

Am Raglen Beilot Chwarae Stryd Caerdydd 13

## Adran 2: Offer i'ch helpu

Offeryn 1: Cais am Orchymyn Stryd Chwarae Dros Dro 16

Offeryn 2: Mabwysiadu polisi chwarae stryd 21

Offeryn 3: Darparu adnoddau i drigolion 23

Offeryn 4: Ffurflen benthyca offer 24

Offeryn 5: Rhaglen weithgareddau arfaethedig 25

Offeryn 6: Ffurflen fonitro trigolion 26

## Atodiad 1: Y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer strydoedd chwarae 27

## Atodiad 2: Deddfwriaethau a pholisïau eraill sy'n sail i brosiectau chwarae stryd 29

## Atodiad 3: Cwestiynau cyffredin 31

## Cyfeiriadau 40

# Y pecyn cymorth

## Cyflwyniad

Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant ac, o ganlyniad, i'w teuluoedd ac i gymunedau'n gyffredinol. Mae gan bob plentyn ysfa gynhenid i chwarae ac mae ymchwil yn awgrymu bod chwarae'n cael effaith ar ddatblygiad ffisegol a chemegol yr ymennydd – gan ddylanwadu ar allu plant i '*gyfaddasu i, goroesi, ffynnu a ffurfio eu hamgylcheddau cymdeithasol a ffisegol*'[1].

Mae'r hawl i chwarae'n cael ei chydnabod yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae chwarae wedi ei ddisgrifio fel rhan hanfodol o bleser plentyndod[2] a thrwy chwarae, bydd plant yn datblygu gwytnwch a hyblygrwydd, gan gyfrannu at les corfforol ac emosiynol.

Yn 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfu dros chwarae trwy Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal. Mae *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, cyfarwyddyd statudol i awdurdodau lleol, yn amlinellu ystod eang o Faterion y mae angen eu hystyried ar draws nifer o feysydd polisi.

Fel rhan o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol (PSAs), mae rhaid i awdurdodau lleol asesu mynediad i le / darpariaeth (Mater Dd). Mae hyn yn cynnwys mannau agored a mannau chwarae awyr agored penodedig heb eu staffio.

Mae'r cyfarwyddyd statudol yn nodi wrth '*gynnal asesiadau ac wrth fynd ati i greu cymunedau lle gall plant chwarae, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod plant yn gallu symud o gwmpas eu cymunedau i chwarae; eu bod yn gallu cerdded neu seiclo i fannau agored neu i ddarpariaeth chwarae neu hamdden; eu bod yn gallu ymweld â'u teulu a'u cyfeillion neu fynd i'r ysgol, heb unrhyw berygl o niwed*'[3].

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ystyried yr holl ffactorau sy'n helpu i sicrhau bod plant yn cael y cyfle i chwarae neu symud o amgylch eu cymunedau, gan gynnwys:

- Camau i dawelu traffig
- Strydoedd chwarae / cau'r ffyrdd dros dro
- Llwybrau cerdded a llwybrau beicio diogel
- Darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus
- Mannau a rennir
- Parcio.

Dylai'r ffactorau hyn gael eu hasesu o ran:

- Nifer y mannau lle ceir terfyn cyflymder o 20 milltir yr awr (mya) mewn ardaloedd preswyl, eu heffeithiolrwydd o ran galluogi plant i chwarae'n ddiogel yn yr awyr agored a'r potensial i gynyddu nifer y mannau lle ceir terfyn cyflymder o 20 mya er mwyn hyrwyddo cyfleoedd chwarae.
- Y llwybrau cerdded a seiclo diogel a ddarperir gan yr awdurdod lleol a'r potensial i ddarparu mwy ohonynt. Dylai hyn gyd-fynd â'r cynigion a gaiff eu nodi yn Neddf Teithio Llesol (Cymru) 2013[4].
- Prosesau syml ar gyfer trefnu i gau ffyrdd dros dro a sicrhau bod gwybodaeth am y prosesau hynny i'w chael yn hawdd.

I'r plant eu hunain, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau.

> *'I ddweud y gwir, be' dwi eisiau yw gwneud ffrindiau a chymryd rhan yn be' sy'n digwydd ble dwi'n byw.'*[5]

Traffig sy'n symud yn gyflym mewn ardaloedd preswyl yw un o'r peryglon pennaf i blant. Mae plant yn dweud mai dyma'r prif beth sy'n eu hatal rhag chwarae'r tu allan. Mewn nifer o drefi a dinasoedd mae chwarae stryd anffurfiol wedi ei ddisodli i raddau helaeth gan y car.

Yn ogystal â'r cynnydd yn niferoedd ceir, mae perfformiad gwell ceir modern yn golygu y gall gyrwyr gyflymu'n sydyn a didrafferth. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod bron i hanner gyrwyr yn torri'r cyfyngiad cyflymder ar ffyrdd 30mya, sy'n ychwanegu at ofnau plant a rhieni[6].

## Ar gyfer pwy mae'r pecyn cymorth?

Bwriedir i'r pecyn cymorth hwn helpu awdurdodau lleol (cynghorau) yng Nghymru i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau i alluogi prosiectau chwarae stryd wedi eu harwain gan drigolion yn eu hardaloedd. Bydd yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer cymdeithasau tai, cymunedau ysgolion, gweithwyr cymunedol a thrigolion lleol i ddeall y cyfleoedd a'r heriau.

## Pam gafodd y pecyn ei ddatblygu?

Cafwyd nifer cynyddol o ymholiadau oddi wrth rieni, trigolion a gweithwyr cymunedol ledled Cymru ynghylch ei gwneud hi'n haws i blant chwarae allan yn eu cymdogaethau, er budd eu hiechyd a'u lles. Datblygwyd y pecyn cymorth hwn gan Chwarae Cymru mewn cydweithrediad â Playing Out – y mudiad sy'n cefnogi chwarae stryd trwy'r DU. Fe'i hysbyswyd gan brosiect peilot o'r model chwarae stryd dros dro mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a thrigolion lleol ac mae'n cyfeirio at becyn cymorth Playing Out – *Toolkit for Local Authorities*.

## Beth mae wedi ei ddylunio i'w wneud?

Mae'r pecyn cymorth wedi ei ddylunio i ddarparu gwybodaeth glir a chryno am brosiectau chwarae stryd ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth fydd yn eich helpu, gobeithio, i ddeall a mynd i'r afael â materion o bwys ac mae'n cynnwys templedi ac offer bob yn gam, ymarferol i helpu i chwarae stryd ddigwydd.

Un ffordd i ddechrau mynd i'r afael â hyn a rhoi mwy o gyfleoedd chwarae i blant yn agos i adref yw trwy ganiatáu strydoedd chwarae dros dro. Yn aml, caiff y rhain eu harwain gan drigolion ond gallant hefyd gael eu harwain gan ysgolion neu gael eu cefnogi gan fudiadau datblygu cymunedol.

Mae **Adran 1** yn cyflwyno gwybodaeth gefndir ac mae **Adran 2** yn cynnwys amrywiaeth o offer i'ch cynorthwyo i alluogi chwarae stryd i ddigwydd yn eich ardal. Mae'r offer hyn yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd o Raglen Beilot Chwarae Stryd Caerdydd.




*‘Rydw i wedi bod yn pwysleisio pwysigrwydd chwarae wrth fy nghymdogion a fy ffrindiau, er bod cau’r stryd yn ffordd wych i ennill momentwm a lleihau pryderon, mae angen i’r syniad gael ei wreiddio ym meddyliau pobl y tu allan i adegau cau’r stryd yn swyddogol.*

*Roedd fy mechgyn yn cael eu denu i fynd allan yn amlach pan oedd plant eraill i’w gweld allan hefyd, felly er ein bod yn chwarae’r tu allan ar ein pen ein hunain ar y cychwyn (y tu allan i adegau cau’r ffordd yn swyddogol), mae’r syniad yn tyfu’n araf bach a, diolch byth, mae mwy o blant yn dechrau dod allan o’u gerddi ac oddi wrth sgriniau ac yn dod allan i chwarae!’*

**Toni, un o drigolion Caerdydd**

*‘Mae plant, pobl ifanc a’u teuluoedd wedi tynnu sylw … at yr angen am fwy o gyfleoedd i chwarae yn eu cymunedau ac i deuluoedd dreulio mwy o amser gyda’i gilydd. Mae’r plant hefyd wedi pwysleisio’r angen i leihau’r defnydd o geir yn y ddinas er mwyn gwella’r amgylchedd a gwneud Caerdydd yn ddinas fwy diogel i symud o’i chwmpas wrth gerdded, seiclo neu sgwtio.’*

**Lee Patterson,**
**Rhaglen Caerdydd - Dinas sy’n Dda i Blant**



# Adran 1: Cefndir

# Chwarae ac adennill y strydoedd

Yn aml, bydd rhieni a phlant yn dweud bod traffig yn ffactor sy'n cyfyngu ar chwarae mewn cymdogaethau. Mae trwch traffig wedi cynyddu dros y blynyddoedd ac mae'n debyg o ddyblu erbyn 2035[7]. Mae rhai ardaloedd wedi mynd i'r afael â hyn trwy adennill strydoedd ar gyfer chwarae trwy brosiectau chwarae stryd dan arweiniad trigolion neu ysgolion, ble caiff strydoedd eu cau i draffig, heblaw ceir trigolion, am gyfnodau byrion er mwyn caniatáu i blant chwarae.

Mae effaith y car mor fawr ar chwarae plant, fel bod angen annog a chefnogi datrysiadau priffyrdd dyfeisgar a chreadigol wedi eu seilio yn y gymuned er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac annog datrysiadau cadarnhaol i broblemau lleol.

# Buddiannau chwarae stryd

Mae nifer o fuddiannau i gefnogi chwarae stryd dan arweiniad trigolion, yn cynnwys:

- Cael trigolion a theuluoedd i fod yn fywiog yn eu strydoedd eu hunain
- Galluogi gweithgarwch cymunedol
- Gwella iechyd a lles plant a'u teuluoedd
- Lleihau ynysu cymdeithasol ymhlith pobl hŷn
- Datblygu cymdogaethau mwy cydlynus a chydgysylltiedig
- Cefnogi enw da'r cyngor mewn cymunedau lleol.

## Gweithgarwch corfforol

Mae adroddiad diweddar, *Why temporary street closures for play make sense for public health*[8], yn awgrymu y gallai cefnogi trigolion lleol i gau eu strydoedd dros dro ar gyfer chwarae wneud cyfraniad pwysig i lefelau gweithgarwch corfforol plant.

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gall sesiynau chwarae stryd ddarparu amser ychwanegol y tu allan, gyda mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol o'i gymharu ag adegau pan nad yw'r stryd ar agor ar gyfer chwarae. Yn ogystal, canfu'r astudiaeth hon bod chwarae corfforol y tu allan yn fwy tebygol o ddisodli gweithgareddau eisteddog ac o flaen sgrîn, na gweithgareddau corfforol strwythuredig.

## Cydlyniad

Mae prosiectau chwarae stryd peilot dan arweiniad trigolion yng Nghaerdydd wedi dynodi cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol – cyfle i sgwrsio gyda chymdogion a chwrdd â rhai am y tro cyntaf.

> *'Mae dipyn o fywyd yn y stryd heno. Rwy'n adnabod dau o bobl yn fwy nag oeddwn i ddoe.'*
> Un o'r trigolion lleol, Caerdydd

## Teimlo'n ddiogel

Yn ogystal, fe wnaeth prosiect peilot Caerdydd helpu i fynd i'r afael â phryderon rhieni ynghylch gadael i'w plant chwarae'r tu allan. Fe wnaeth bron i bob un o'r oedolion oedd yn bresennol sôn am eu hoff atgofion a'u hatgofion mwyaf positif o chwarae ar ac o amgylch y strydoedd. Ym mhob un o'r sesiynau chwarae stryd peilot, arsylwyd oedolion yn bod yn chwareus, tra'n caniatáu i'r plant arwain eu chwarae. Nododd nifer o rieni bod y sesiynau wedi caniatáu i'r plant ddysgu i sgwtio neu seiclo a'i bod yn amlwg iddyn nhw bod eu plant yn ennill hyder.

Am fwy o dystiolaeth am effaith chwarae stryd, gweler pecyn cymorth Playing Out – *Toolkit for Local Authorities* neu ymwelwch â: https://playingout.net/why/impact-overview



# Modelau

## Chwarae stryd dan arweiniad trigolion

Datblygwyd y model Playing Out gan rieni, ac mae'n galluogi chwarae stryd traddodiadol ar gyfer plant ar eu stryd eu hunain, a gymerwyd yn ganiataol gan genedlaethau hŷn.

Pwrpas sesiynau chwarae stryd yw galluogi plant i chwarae'n rhydd yn eu strydoedd, ar ddyddiadau ac amserau penodedig a dan oruchwyliaeth eu rhieni. Bydd plant yn meddiannu'r palmentydd a'r ffordd am gyfnod byr ac yn chwarae'n ddiogel, mynd ar eu beics a'u sgwteri, defnyddio sialc, a chwarae yn yr holl ffyrdd eraill sy'n eu galluogi i gael hwyl, cymdeithasu a gwella eu hiechyd a'u lles.

Mae'r sesiynau'n cael eu harwain gan drigolion ac yn annog chwarae rhydd, gydag elfen o annibyniaeth. Y rhieni fydd yn gyfrifol am ddiogelwch eu plant a rhedeg y sesiynau.

Cynhelir y sesiynau tra bo'r ffordd wedi ei chau dros dro a chyfyngir mynediad i geir, ond ni chaiff ei atal yn llwyr. Bydd trigolion yn cymryd eu tro i 'stiwardio' ceir sydd angen mynediad i ddod i mewn neu allan o'u heiddo. Nid yw hyn yn ymwneud â thawelu traffig – mae'n darparu gofod ac amser penodedig i blant chwarae'r tu allan.

Am fwy o fanylion am y model 'chwarae allan', yn cynnwys fideos 'sut i', ymwelwch â: https://playingout.net/how/playing-four-simple-steps

## Chwarae stryd dan arweiniad ysgolion

Mae Cymdeithas Chwarae Hackney, mewn partneriaeth gyda Chyngor Hackney yn Llundain, yn cefnogi model chwarae stryd wedi ei leoli mewn ysgol. Mae'n seiliedig ar waith Cymdeithas Chwarae Hackney i gefnogi ysgolion a chanolfannau a meithrinfeydd plant i gynnal sesiynau chwarae stryd ers 2013.

Cynhelir sesiynau chwarae stryd ysgol ar strydoedd y tu allan i'r ysgol pan ddaw'r diwrnod addysgu i ben, gan redeg yn aml unwaith y tymor yn ystod y gwanwyn a'r haf – ond gallant

ddigwydd yn amlach. Gall pwyllgorau rhieni chwarae rhan arweiniol yn y trefniadau, gyda chefnogaeth ac anogaeth y pennaeth neu'r staff addysgu. Dro arall, efallai y caiff y fenter ei harwain gan yr ysgol gyda gwirfoddolwyr o blith y rhieni. Bydd angen i gymuned yr ysgol ymgynghori'n ddigon tebyg i stryd chwarae breswyl – curo drysau ac anfon llythyrau at drigolion a busnesau ar eu stryd.

Yn ogystal, bydd cymuned yr ysgol yn siarad gyda rhieni, weithiau trwy gynnal cyfarfod i gasglu sylwadau rhieni ac i'w hatgoffa bod rhaid i rieni fynychu'r sesiynau gyda'u plant. Yn y cyfnod cyn y sesiwn, bydd yr ysgol yn cyfathrebu gyda'r rhieni, y plant a'r trigolion trwy gylchlythyrau, e-byst, posteri ac mewn gwasanaethau ysgol.



Bydd cyfuniad o rieni a staff yn gwirfoddoli i stiwardio cau'r ffordd ac mae'n ddefnyddiol gwneud cais i gau'r ffordd gychwyn chwarter neu hanner awr cyn i'r diwrnod ysgol orffen. Bydd hyn yn rhoi amser i'r stiwardiaid gau'r ffordd cyn i'r plant ddod allan o'r ysgol. Cewch hyd i ffilm a chanllaw manwl ar redeg strydoedd chwarae ysgolion ar wefan Hackney Play: www.hackneyplay.org/playstreets/home

### Chwarae stryd dan arweiniad gweithiwr cymunedol

Mae mentrau chwarae stryd llwyddiannus, yn bennaf, yn cael eu harwain gan drigolion, er weithiau bydd mudiadau neu weithwyr datblygu cymunedol lleol yn cynnig helpu ble fo angen. Gallai hyn gynnwys:

- Cynnal gweithdai neu sesiynau gwybodaeth am ddim i hyrwyddo'r syniad ymysg rhieni
- Hyrwyddo buddiannau cefnogi chwarae stryd gydag aelodau etholedig allweddol a swyddogion o'r cyngor sy'n gyfrifol am iechyd a lles, cynllunio, priffyrdd a thrafnidiaeth
- Hwyluso cyfarfodydd cychwynnol i'r trigolion a mynychu'r sesiwn gyntaf i gefnogi trigolion a'u hannog i barhau â'r prosiect
- Helpu gyda deunyddiau sylfaenol i gefnogi chwarae
- Cydlynu cyflenwi a storio arwyddion cau ffordd a gwasgodau llachar.

## Deddfwriaethau

Ar hyn o bryd yng Nghymru prin iawn yw'r awdurdodau lleol sydd â phrosesau neu bolisïau chwarae stryd yn eu lle. Y ddeddfwriaeth a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin ar gyfer gweithgarwch stryd dan arweiniad trigolion (fel partïon stryd) yw Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (pennod 27, rhan II, adran 16).

*Gweler Atodiad 1 am fwy o fanylion ar y fframwaith deddfwriaethol oddi wrth Playing Out.*

# Meddwl am yswiriant

*(gyda diolch i Playing Out a The Street Party Site am y cyngor canlynol)*

**Mae cost y premiwm yn afresymol i lawer o gymunedau ac mae'n bosibl na fydd yn delio â'r materion atebolrwydd a 'dyletswydd gofal' y gallai cynghorau fod yn pryderu amdanynt.**

Yn 2012, ar gyfer y Jiwbilî, cymerodd tua dwy filiwn o bobl ran mewn partïon stryd. Roedd gan rai o'r rhain yswiriant ond ni wnaethpwyd unrhyw hawliadau yn y DU, yn ôl y cwmnïau yswiriant.

**Nid y cyngor sy'n gyfrifol am y digwyddiad.**

Trwy gyhoeddi Gorchymyn cau ffordd nid yw'r cyngor yn trwyddedu nac yn cymeradwyo unrhyw agwedd o'r digwyddiad ei hun. Er mwyn cyflawni eu dyletswydd gofal bydd llawer o gynghorau yn sicrhau bod trigolion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn lleihau unrhyw risg neu ymgais i wneud hawliad yn erbyn y cyngor, trwy ofyn i drigolion gytuno trwy arwyddo nifer o amodau, a ysgrifennir mewn Cymraeg syml, ar ran y trigolion eraill.

**Mae'r risg atebolrwydd yn isel.**

Nid yw Playing Out wedi clywed am unrhyw hawliad am atebolrwydd yn cael ei wneud o ganlyniad i sesiwn chwarae'r tu allan, gyda dros 800 o strydoedd wedi chwarae'r tu allan ar draws y DU (Hydref 2018). Yn ogystal, nid yw Streets Alive – y mudiad sy'n hyrwyddo partïon stryd – wedi clywed am unrhyw hawliadau'n cael eu gwneud yn dilyn partïon stryd.

Mae natur sesiynau chwarae stryd yn golygu eu bod yn risg isel iawn o ran y posibilrwydd y gwneir hawliad yn erbyn y cyngor, am y rhesymau canlynol:

- Mae canllawiau a phroses glir yn eu lle i sicrhau bod y sesiynau mor ddiogel â phosibl
- Caiff trigolion eu hannog i gwblhau asesiad risg
- Mae'r ffordd wedi ei chau i draffig yn ffisegol ac yn gyfreithiol
- Ni cheir gweithgareddau strwythuredig – bydd y plant yn chwarae ac yn arwain eu chwarae eu hunain, gydag oedolion yn bresennol
- Mae'r holl weithgareddau'n weladwy, a bydd stiwardiaid ar bob pen i'r stryd trwy'r amser, sy'n golygu ei bod yn hawdd iddyn nhw weld beth sy'n digwydd.



- Caiff ei wneud yn gwbl glir, yn yr holl gyhoeddusrwydd, mai rhieni fydd yn gyfrifol am eu plant a phlant eraill sydd yn eu gofal
- Mae'r agwedd bod y trefniadau dan arweiniad trigolion yn golygu bod ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb personol ymysg trigolion gan eu bod yn rhannu'r trefniadau rhyngddynt
- Prin fydd pobl sydd ddim yn byw ar y stryd yn mynychu gan na cheir cyhoeddusrwydd allanol.

**Yn aml, nid yw telerau Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn amddiffyn cyngor neu drigolion rhag atebolrwydd neu ddamweiniau, sy'n golygu nad oes sicrwydd ei fod yn gwbl ddilys ar gyfer chwarae stryd.**

- Fel arfer, bydd Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn eithrio difrod i eiddo sydd ddim yn berchen i drigolion (yn cynnwys i'r briffordd, celfi stryd a cherbydau), o ganlyniad i weithredoedd bwriadol neu faleisus neu ladrad, neu'n ystod gosod a chlirio'r digwyddiad.
- Efallai na fydd yr yswiriant yn ddilys ar gyfer grwpiau sy'n aml yn rhai anffurfiol a heb gyfansoddiad, heb gofnodion ysgrifenedig neu 'swyddogion', er enghraifft. Rhennir y gwaith o drefnu'r digwyddiad ac ni chedwir cofnod o hyn gan amlaf. Er y byddai cwmnïau yswiriant yn gwerthu polisi i unigolyn neu 'drigolion y strydoedd', gallai problem godi pe bae rhywun yn gwneud hawliad mawr, er enghraifft am anaf difrifol. Mae'n annhebyg y byddai'r ffurflenni cais a'r print mân yn cael eu darllen yn fanwl gan un o'r trigolion fyddai'n gwneud cais am yswiriant.
- Fydd yswiriant ddim yn atal unrhyw ddifrod i berson neu eiddo. Gallai hyd yn oed greu ffug-ymdeimlad o sicrwydd ymhlith y trigolion. Mae'n fwy priodol i gyngor awgrymu y dylai'r trigolion reoli unrhyw risgiau a'u helpu i wneud hynny.
- Gallai bod ag yswiriant annog pobl i wneud hawliad neu wneud môr a mynydd o ddigwyddiad.

**Mae gofynion cyffredinol am yswiriant a lefelau yswiriant gormodol yn groes i gyngor Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar risg a chwarae – *Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at risg*[7].**

*'Bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eich dwyn i gyfraith a chael eich erlyn bellach y tu hwnt i bob rheswm.'*

*'Weithiau caiff deddfau a rheoliadau iechyd a diogelwch eu cyflwyno fel rheswm dros beidio a chefnogi gweithgareddau hamdden a chwarae penodol y bydd plant a phobl ifainc yn eu dewis. Mae'r rhesymau am y camddealltwriaethau hyn yn amrywiol a niferus. Maent yn cynnwys ofn ymgyfreithiad neu erlyniad troseddol gan na chafodd y risg mwyaf dibwys ei ddileu. Gall y gwaith papur sydd ei angen beri rhwystredigaeth a chamddealltwriaeth ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i reoli risgiau sylweddol.'*



# Am Raglen Beilot Chwarae Stryd Caerdydd



Yn dilyn diddordeb gan rieni lleol i sefydlu menter chwarae stryd yn eu cymdogaethau lleol, cynhaliodd Chwarae Cymru gyfarfod gydag eiriolwyr lleol, Playing Out, swyddog datblygu chwarae'r cyngor, a chynrychiolwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn dilyn y cyfarfod, hwylusodd Chwarae Cymru rwydwaith trigolion a soniodd bod ganddynt ddiddordeb trefnu i gau'r stryd ar gyfer chwarae a chefnogwyd y cymdogion i dreialu sesiynau chwarae stryd untro yn eu strydoedd ym mis Awst 2017. Yn dilyn derbyn caniatâd y cyngor, fe barhaodd trigolion lleol mewn un gymdogaeth i gynnal cyfres o sesiynau ble roedd y stryd wedi ei chau (yn rhad ac am ddim) o fis Ionawr i fis Ebrill 2018.

Derbyniodd Chwarae Cymru fwy o ymholiadau oddi wrth drigolion yng Nghaerdydd yn mynegi diddordeb trefnu chwarae stryd yn eu cymdogaethau hwythau. Cysylltodd Chwarae Cymru gyda nifer o swyddogion y cyngor i drafod sut allai'r fenter hon gefnogi'r gwaith yr oedd Caerdydd yn ei wneud i ddod yn Ddinas sy'n Dda i Blant. Caerdydd yw'r cyngor Cymreig cyntaf i weithio tuag at gydnabyddiaeth fyd-eang fel un o Ddinasoedd sy'n Dda i Blant Unicef.

Mae rhaglen Caerdydd – Dinas sy'n Dda i Blant wedi dod â phartneriaid ynghyd i ddatblygu rhaglen beilot Chwarae Stryd. Mae'r rhaglen hon yn anelu i symleiddio'r broses ymgeisio i gau ffyrdd er mwyn galluogi trigolion i ymgeisio i gau eu stryd, er mwyn caniatáu i blant chwarae'n ddiogel, am amser penodol dros nifer o fisoedd a hynny drwy un cais.

Mae'r rhaglen wedi ei datblygu a'i rheoli gan Grŵp Gorchwyl Chwarae Stryd Caerdydd gyda chynrychiolwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwarae Cymru, y Tîm Polisi Trafnidiaeth, a'r Gwasanaethau Tai a Chymunedau, Addysg a Chwarae.

Gydag ariannu oddi wrth Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm, mae Chwarae Cymru wedi cefnogi'r rhaglen beilot trwy:

- Weithio gyda Playing Out i greu fersiynau Cymraeg o'u deunyddiau
- Darparu hyfforddiant i drigolion
- Cyflwyno cyflenwad o offer, yn cynnwys arwyddion rheoli traffig, conau traffig, eitemau chwarae rhad a gwasgodau llachar i bob stryd.

Cynhaliwyd Rhaglen Beilot Chwarae Stryd Caerdydd o fis Medi 2018 tan fis Chwefror 2019. Cyfyngwyd nifer y strydoedd (pump) ar y peilot er mwyn sicrhau bod y broses yn cael ei rheoli'n briodol, ynghyd â disgwyliadau'r gymuned.



## Sut y rhoddwyd y prosiect peilot ar waith – bob yn gam

- Derbyniwyd a chofnodwyd datganiadau o ddiddordeb gan Playing Out a Chwarae Cymru
- Trwy raglen Caerdydd – Dinas sy'n Dda i Blant, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl Chwarae Stryd Caerdydd
- Sefydlodd Chwarae Cymru rwydwaith o drigolion
- Gweithiodd Chwarae Cymru gyda Playing Out i addasu a chyfieithu llawlyfr i drigolion ac adnoddau eraill Playing Out
- Hysbysodd trigolion-ysgogwyr allweddol eu cymdogion ac aelodau etholedig am y syniad a chynllunio cyfarfodydd chwarae stryd anffurfiol
- Cynhaliwyd cyfarfod chwarae stryd i drafod y syniad ac i ateb cwestiynau
- Ymgeisiodd ysgogwyr allweddol i Gyngor Caerdydd gan ddefnyddio templed y ffurflen gais a hysbysu eu cymdogion
- Ymatebodd yr ysgogwyr i wrthwynebiadau a phryderon, gan ddefnyddio'r cwestiynau cyffredin a ddatblygwyd gan Playing Out
- Recriwtiwyd stiwardiaid gwirfoddol
- Cynhaliodd Chwarae Cymru gyfarfod i drafod elfennau ymarferol cau'r stryd a rheoli'r traffig
- Darparodd Chwarae Cymru adnoddau
- Trefnwyd y sesiynau cyntaf
- Cafodd trigolion eu hatgoffa am y sesiynau arfaethedig trwy roi taflenni trwy'r drysau ac ar y cyfryngau cymdeithasol
- Hwylusodd Chwarae Cymru adolygiad o'r sesiynau i hysbysu camau i'r dyfodol.



# Adran 2: Offer i'ch helpu

# Offeryn 1: Cais am Orchymyn Stryd Chwarae Dros Dro

**Fe ddefnyddiodd Cyngor Caerdydd y templed hwn, sy'n debyg i'r un a ddatblygwyd gyntaf gan Gyngor Dinas Bryste, i ganiatáu i drigolion ymgeisio am Orchymyn Stryd Chwarae Dros Dro. Yn ogystal â'r cais, mae'n cynnwys templed o lythyr i drigolion ei ddefnyddio i hysbysu eu cymdogion eu bod wedi ymgeisio am gau'r ffordd dros dro ar gyfer stryd chwarae.**

## Cyngor ______________________

**Cais am Orchymyn Stryd Chwarae Dros Dro**
(Deddfwriaeth: Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847)

**PWYSIG – cofiwch ddarllen yn ofalus!**

1. Defnyddiwch y ffurflen hon dim ond os ydych am ymgeisio am Orchymyn cau ffordd Stryd Chwarae dros dro. Bydd y Gorchymyn hwn yn caniatáu ichi gau ffordd at ddiben chware plant ar ddyddiadau ac amserau a nodwyd. Os nad ydych yn siŵr mai dyma'r ffurflenni cywir ar gyfer eich digwyddiad chi cysylltwch â ni ar: ______________________

2. Rhaid ichi sicrhau ein bod yn derbyn eich cais erbyn ______________________ neu fydd dim modd inni ei brosesu. I osgoi cael eich siomi, dylech ddanfon eich cais trwy law / e-bost neu ei anfon trwy bost ar gofnod, gan mai eich cyfrifoldeb chi fydd ceisiadau hwyr neu rai aiff ar goll ac na fydd modd inni eu prosesu.

3. Cofiwch sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen. Er mwyn osgoi unrhyw oedi, dylech amgáu'r canlynol gyda'ch cais:

   - cynllun stryd ar gyfer eich digwyddiad (gweler adran 2)
   - copi o'ch llythyr ymgynghori â thrigolion (gweler adran 4)

4. Ni all Cyngor ______________________ warantu y gwneir Gorchymyn, a chaiff unrhyw Orchymyn a wneir o dan y cais hwn ei ddirymu os na chydymffurfir ag unrhyw un o'r amodau hyn:

   i. Bydd rhaid ichi dalu i'r cyngor gostau llawn unrhyw ddifrod a wneir i'r briffordd neu gelfi stryd neu golled neu ddifrod arall y bydd yn ei ddioddef ac unrhyw hawliadau a wneir yn ei erbyn o ganlyniad i gyhoeddi'r Gorchymyn ac sy'n codi'n sgîl eich esgeuluster chi neu (os ydych yn cynrychioli mudiad) esgeuluster aelodau neu swyddogion eich mudiad chi. Rydym yn argymell yn gryf ichi brynu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus am gyfnod cyfan cau'r ffordd/ffyrdd.

   ii. Bydd unrhyw Orchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO) neu ddarpariaeth statudol arall sydd mewn grym ar hyn o bryd ar y ffordd/ffyrdd sydd i'w cau yn parhau i fod mewn grym yn ystod cyfnod cau'r ffordd, oni nodir i'r gwrthwyneb ar y Gorchymyn Cyfreithiol.

iii. Os yw’n briodol, dylech lanhau’r stryd er mwyn ei dychwelyd i’r un cyflwr ag oedd hi cyn ei chau. Dylid gwneud hyn cyn ail-agor y ffordd.

iv. Ni ddylai’r un cyfnod o gau’r ffordd fod yn hwy na dwy awr.

v. Cyhoeddir Gorchymyn at ddiben chwarae plant yn unig ac ni chaiff gynnwys gosod unrhyw strwythur ar y briffordd yn ystod ei defnyddio.

vi. Ni ellir ymgymryd ag unrhyw weithgaredd sy’n galw am unrhyw fath o drwydded (o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) tra bo’r Gorchymyn hwn mewn grym.

vii. Bydd rhaid sicrhau y gall cerbydau trigolion / busnesau a’r gwasanaethau brys fynd a dod o’r stryd yn ystod unrhyw gyfnod o gau’r ffordd.

viii. Ni ellir gwrthod na chyfyngu parcio ar y stryd ar wahân i drwy Orchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO) sy’n bodoli eisoes.

ix. Caiff y ffordd/ffyrdd eu cau dim ond ar y dyddiadau a’r amserau a nodir yn y Gorchymyn.

x. Rhaid i’r holl ddigwyddiadau fod dan oruchwyliaeth oedolion.

xi. Dylid defnyddio Rheolaeth Traffig priodol a’u casglu i gyd wedi’r amser cau, neu codir tâl arnoch.

xii. Ar adegau penodol gall Cyngor ______________________ neu staff ____________________ ymweld i adolygu gweithrediad y treial / cau’r ffordd er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni’n unol â gofynion y Gorchymyn. Os nad yw, am ba bynnag reswm, caiff y Gorchymyn ei ddirymu ac ni chaniateir cau’r ffordd eto.

xiii. Os, am ba bynnag reswm, y gallai gwaith ffordd neu ddigwyddiadau eraill effeithio ar gau’r ffordd, fe wnaiff Cyngor ______________________ gysylltu â chi trwy ebost i’ch cynghori na all eich cyfle i gau’r ffordd ddigwydd ar y dyddiad(au) hwn, fodd bynnag, ble fo modd efallai y gellir caniatáu dyddiad arall ond ni ellir gwarantu hyn.

Rwy’n cadarnhau bod yr holl wybodaeth yr wyf yn ei ddarparu isod yn gywir ac fy mod yn 18 oed neu’n hŷn. Rwy’n cytuno y gall Cyngor ____________________ ddosbarthu unrhyw elfennau o’r wybodaeth a ddarperir yn y ffurflenni hyn i drydydd parti a’u defnyddio’n gyhoeddus. Rwy’n deall bod cyflwyno’r ffurflenni cais hyn yn arwydd fy mod yn derbyn yr amodau uchod.

Arwyddwyd: ____________________________

Dyddiad: ______________________________

## 1. Manylion yr ymgeisydd

Enw'r person (a'r mudiad, os yn berthnasol): ______________________________

Cyfeiriad cyswllt (yn cynnwys côd post): ______________________________

______________________________

Rhif ffôn (dydd): ______________________________

Rhif ffôn (nos): ______________________________

Cyfeiriad ebost: ______________________________

## 2. Manylion cau'r ffordd

Nid yw Cyngor ______________________________ yn gwarantu o gwbl bod y ffordd yn addas ar gyfer eich digwyddiad.

Enw'r ffordd / ffyrdd i'w cau: ______________________________

______________________________

Hyd y ffordd / ffyrdd i'w cau (os yn briodol):

O: ______________________________

At: ______________________________

Dylech amgáu cynllun yn dangos union hyd y rhan o'r ffordd sydd i'w gau.

Nodwch y dyddiadau a'r amserau yr ydych yn bwriadu cau'r ffordd / ffyrdd, gan egluro os yw hwn i fod yn ddigwyddiad rheolaidd. Os na nodwch ddyddiadau penodol, ni fydd modd inni brosesu eich cais.

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

## 3. Rheoli'r traffig: conau / arwyddion dargyfeirio

Mae conau ac arwyddion dwyieithog pwrpasol yn angenrheidiol ar gyfer cau'r ffordd. Mae hyn yn cynnwys arwydd 'Ffordd ar Gau' a chonau ar bob lleoliad ble mae'r ffordd wedi ei chau, ac unrhyw arwyddion dargyfeirio priodol ar gyfer y llwybr gwahanol, y bydd ei fanylion wedi eu nodi ar y Gorchymyn Cyfreithiol. Yn ogystal, dylai pob pwynt cau'r ffordd gael ei oruchwylio a'i gynnal bob amser gan oedolyn cyfrifol y gellir ei adnabod yn hawdd. Dylid gwisgo gwasgod lachar trwy'r amser wrth stiwardio'r mannau ble mae'r ffordd wedi ei chau.

Cofiwch gysylltu â ni os hoffech eglurhad pellach ynghylch y gofynion o ran arwyddion.

Pa drefniadau ydych chi wedi eu gwneud ar gyfer gosod a goruchwylio conau ac arwyddion?

______________________________________________

______________________________________________

## 4. Hysbysiad cyhoeddus

Mae gofyn ichi ymgynghori â phob eiddo gaiff ei effeithio trwy lythyr yn defnyddio'r templed isod. Dylech amgáu copi o'r llythyr yr ydych am ei anfon allan gyda'r ffurflenni hyn. Sylwer: er y gallwch gynnwys gwybodaeth atodol am eich digwyddiad, bydd rhaid ichi ddefnyddio'r geiriad penodol yn y templed hwn. Os bydd eich llythyr yn cynnwys geiriad amgen neu wahanol cewch eich cyfarwyddo i ail-ddrafftio ac ail-anfon y llythyr at bawb unwaith eto.

Ni ddylech gyfarwyddo trigolion i beidio â pharcio ar y ffordd yn ystod y digwyddiad gan nad yw'r Gorchymyn cau'r ffordd yn atal nac yn gwahardd parcio.

Nodwch restr gryno o'r eiddo gaiff ei effeithio. Mae hyn yn golygu unrhyw eiddo, yn eiddo preswyl neu fasnachol, sydd wedi ei leoli ar neu y gellir cael mynediad iddo dim ond ar hyd y ffordd / ffyrdd yr ydych am eu cau - e.e. Y Stryd Fawr rhifau 1-99 a rhifau 2-98. Cofiwch sicrhau, pan fyddwch yn hysbysu adeiladau amlfeddiannaeth (e.e. blociau fflatiau), bod llythyr yn cael ei ddanfon i bob preswylfa unigol.

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

Nodwch y dyddiad yr anfonwyd eich llythyr ymgynghori: ______________________

A dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'ch cynnig?
DO NADDO (nodwch â chylch)

Cysylltwch â ni os ydych angen cymorth i ddatrys pryder neu wrthwynebiad. Hysbysir y Gwasanaethau Brys am eich cynnig i gau'r ffordd gan Gyngor ______________________ fel rhan o'r broses ymgeisio a chaiff ei gynnwys ar yr adroddiad ffyrdd wythnosol.

Dychwelwch eich ffurflenni, wedi eu cwblhau, atom ni. Unai:

1. Trwy eu hargraffu, eu sganio a'u ebostio at: ______________________

2. Trwy'r post at: ______________________

Os bydd eich cais yn llwyddiannus anfonir yr Hysbysiadau Cau Ffordd atoch ddim llai nag wythnos cyn dyddiad eich bwriad arfaethedig i gau'r ffordd am y tro cyntaf. Sylwer: ble fo modd, bydd angen gosod hwn ar bolyn lamp ar y safle. Gallwch wirio ein bod wedi derbyn eich cais a monitro ei gynnydd trwy ein ebostio.

## Templed llythyr ymgynghori

**At:** Y Preswylydd

**Oddi wrth:** ______________________________

**Cyfeiriad:** ______________________________________________________________________

______________________________________________________________________________

**Fy rhif ffôn:** ____________________________

**Fy ebost:** ______________________________

**Dyddiad:** _______________________________

Annwyl Syr / Madam,

**Par: Gorchymyn arfaethedig Cau Stryd Chwarae dros dro**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod yn y broses o ymgeisio am Orchymyn Stryd Chwarae Dros Dro i gau'r ffordd / ffyrdd canlynol:

______________________________________________________________________________

______________________________________________________________________________

Byddai'r Gorchymyn hwn yn ddilys o ______________________________ yn unig ac, yn dilyn derbyn caniatâd gan Gyngor ______________________________ byddai cau'r ffordd ond yn digwydd ar y dyddiadau / amserau penodol canlynol:

______________________________________________________________________________

______________________________________________________________________________

Caiff y ffordd ei chau'n gyfan gwbl i draffig trwodd a chaiff y mannau cau eu stiwardio. Caniateir mynediad llawn i drigolion ond gofynnir iddynt yrru fel malwen dan oruchwyliaeth stiwardiaid o fewn yr ardal sydd wedi ei chau. Ni fydd angen symud cerbydau sydd wedi eu parcio o'r stryd, er efallai yr hoffech wneud hynny. Bydd rhieni'n llwyr gyfrifol am eu plant eu hunain a sicrheir mynediad i'r gwasanaethau brys bob amser ym mob rhan o'r stryd(oedd).

Dylech gyfeirio unrhyw sylwadau, ymholiadau neu wrthwynebiadau am y cynnig hwn ataf fi yn y lle cyntaf. Os na allaf leddfu eich pryderon, gallaf eich cyfeirio at ______________________________ yn y cyngor.

Diolch yn fawr ichi, ymlaen llaw, am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

______________________________

# Offeryn 2: Mabwysiadu polisi chwarae stryd

**Mae gweithredu ac adolygu prosiect Peilot Chwarae Stryd Caerdydd wedi ein galluogi i ddynodi nifer o bethau i'w hystyried o ran arfer dda.**

Am wybodaeth bellach ar sut y gall cynghorau roi'r gefnogaeth orau i chwarae stryd, yn cynnwys cwestiynau cyffredin, gweler adran gwefan Playing Out ar gyfer awdurdodau lleol:
https://playingout.net/how/how-councils-support-street-play

**Dylid ystyried y canlynol:**

## Cynllunio

- Bydd y cyngor yn sefydlu a chynnal grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith yr holl swyddogion perthnasol yn y cyngor, trigolion, tîm iechyd y cyhoedd, mudiadau cymorth cymunedol a'r heddlu i fonitro'r polisi ac arfer ac i fynd i'r afael ag unrhyw faterion fydd yn codi.
- Mae cefnogaeth wleidyddol dda'n bodoli a chydnabyddiaeth bod angen rhywfaint o gefnogaeth oddi wrth y cyngor.


## Polisi

- Mae proses ymgeisio syml a hawdd yn ei lle.
- Mae'r cyngor yn gwbl eglur am y criteria a ddefnyddir i wneud penderfyniadau (h.y. llwybrau bws neu lwybrau strategol, gwaith cynnal a chadw sydd i'w wneud gerllaw, nodweddion y stryd, ffyrdd pwysig neu briffyrdd).
- Ni ddylid codi tâl ar drigolion i ymgeisio i gau eu strydoedd dros dro.
- Mae'r ffurflen gais yn cynnwys llythyr ymgynghori ffurfiol a anfonir i bob cartref o fewn yr ardal i'w chau, er mwyn gallu datrys unrhyw bryderon.
- Dim ond gwrthwynebiadau realistig ble caiff materion annerbyniol eu dynodi a'u tystio ddylid eu hystyried, nid rhai sy'n seiliedig ar anghytundeb gyda'r egwyddor gyffredinol o chwarae stryd.
- Yr unig bryd y dylid gwrthod cais yw ble fo pryder dilys ynghylch diogelwch neu ble mae gwrthwynebiadau'n drech na chefnogaeth ar y stryd.
- Dylai bod gofyn i drigolion gydymffurfio â'r gweithdrefnau safonol ar gyfer gosod arwyddion a chonau ar y stryd ac i sicrhau bod dau stiward yn gofalu am bob man ble mae'r ffordd wedi ei chau bob amser.
- Dylai'r Gorchymyn wneud yn gwbl glir na chaniateir unrhyw draffig trwodd ac y caiff cerbydau ond mynd a dod o'r stryd ar gyflymder cerdded ac wedi eu goruchwylio, unwaith bod y ffordd yn glir o blant sy'n chwarae.
- Mae'r cyngor yn caniatáu i drigolion wneud mwy nag un cais y flwyddyn, fel y gallant dreialu'r syniad neu newid y diwrnod / amser os nad yw'n ymarferol.
- Dylid cyflwyno'r broses ymgeisio'n raddol trwy gydol y flwyddyn.
- Gofynnwch i drigolion arwyddo cymal indemniad rhesymol yn hytrach na mynnu eu bod yn prynu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (allai fod yn rhwystr sylweddol i nifer o strydoedd).

## Cefnogaeth

- Mae'n hawdd i drigolion gael gafael ar arwyddion ffyrdd a deunyddiau eraill sy'n cefnogi chwarae stryd.
- Mae gan y trigolion gefnogaeth ar gyfer cynhyrchu deunyddiau wedi eu hargraffu.
- Mae'r trigolion yn cael cyfle i gwrdd a rhwydweithio â'i gilydd.
- Dylai'r gofynion o ran arwyddion a rhwystrau sicrhau diogelwch, ond heb fod yn rhy anodd i'w storio. Bydd rhai cynghorau'n darparu rhwystrau ac arwyddion syml i drigolion am oes eu Gorchymyn.
- Mae dull ar gyfer cynnig cyngor i drigolion ar batrwm cau'r ffordd, yr arwyddion cywir a materion rheoli traffig eraill. Os nad oes modd i'r cyngor ddarparu hyn, enwebwch bartner allai wneud hyn.
- Dylid datrys gwrthwynebiadau rhwng cymdogion ond gall y cyngor gynorthwyo gyda hyn a, ble fo angen, gyfryngu neu gynnig datrysiadau ymarferol (fel cynnal sesiwn 'treialu' untro neu symud y man ble mae'r ffordd ar gau i ran arall o'r stryd).
- Dylai fod yn gwbl glir mewn nodiadau canllaw mai rhieni fydd yn gyfrifol am eu plant eu hunain bob amser.
- Eglurwch yn blaen i'r trigolion nad oes unrhyw orfodaeth arnynt i gau'r ffordd bob tro y mae ganddynt ganiatâd i wneud hynny ac na ddylid bwrw ymlaen â'r sesiwn os nad oes digon o stiwardiaid a'i bod yn ddiogel i barhau.
- Cofiwch gyfeirio trigolion at Chwarae Cymru, Playing Out a ffynonellau cefnogaeth lleol eraill.

## Sut mae cynghorau yn cefnogi chwarae stryd – gwneud i bethau weithio



# Offeryn 3: Darparu adnoddau i drigolion

Nododd y trigolion, wrth adrodd yn ôl, bod darparu arwyddion rheoli traffig, conau ac eitemau ar gyfer stiwardio'n allweddol ar gyfer cyfranogaeth trigolion lleol, a llwyddiant y gyfranogaeth honno. Ar gyfer prosiect Peilot Chwarae Stryd Caerdydd, llwyddodd Chwarae Cymru i sicrhau ariannu i ddarparu cist chwarae stryd ar gyfer pob stryd am oes y prosiect. Y trigolion oedd yn gyfrifol am storio'r offer yn ddiogel a sicrhau ei fod yn cael ei glirio oddi ar y ffordd ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae'n bwysig bod y cyfrifoldebau hyn yn cael eu deall gan y rheini sy'n rhoi benthyg ac sy'n benthyca'r offer yma.

Mae rhai cynghorau eraill yn y DU (fel Hackney yn Llundain a Bryste) yn darparu offer i bob stryd yn rhad ac am ddim.

## Cynnwys posibl ar gyfer cist adnoddau chwarae:

| | |
|---|---|
| Arwydd ysgafn 'Ffordd ar Gau' dwyieithog, maint safonol | 2 |
| Conau traffig | O leiaf 4 |
| Rhuban gyda chwiban arno a thaflen briffio stiwariaid* | 4 |
| Gwasgod lachar | 4 |
| Taflenni'n hyrwyddo'r rhesymau da am chwarae stryd* | |
| Rhaff sgipio hir | 1 |
| Sialc stryd | |
| Pêl sbwng | |
| *Sut i drefnu sesiynau chwara'r tu allan ar dy stryd** | |

Ar gael i'w lawrlwytho ar:
www.chwaraecymru.org.uk/cym/cyhoeddiadau/canllawchwaraestryd



# Offeryn 4: Ffurflen benthyca offer

Enw: ______________________________

Rhif ffôn: ____________________________

Cyfeiriad: ______________________________________________________________

______________________________________________________________________

Cyfeiriad ebost: _______________________

Dyddiad: ____________________________

**Disgrifiad o'r offer gaiff ei fenthyca:**

________________________________

________________________________

________________________________

Dyddiad dychwelyd penodol: ______________

**Datganiad**

- Rwy'n cytuno i gadw'r offer a restrir uchod yn ddiogel ac i ddychwelyd pob eitem ar y dyddiad a nodir.
- Rwy'n cytuno i sicrhau y caiff yr holl offer ei glirio o'r ffordd ar ddiwedd pob sesiwn chwarae stryd.
- Rwy'n cytuno i roi gwybod i'r benthyciwr am unrhyw golled neu ddifrod i'r offer.
- Rwy'n cytuno i beidio rhoi'r offer i unrhyw un arall.
- Rwy'n cytuno i beidio defnyddio'r offer at unrhyw ddiben arall heblaw sesiynau chwarae stryd awdurdodedig.
- Rwy'n cytuno i hysbysu'r benthyciwr os bydd y person cyswllt allweddol ar gyfer y sesiynau chwarae stryd yn newid yn ystod cyfnod y cytundeb hwn.

**Arwyddwyd:** ________________________

**Enw:** ________________________

**Llofnod awdurdodedig:** ________________

**Enw:** ________________________

# Offeryn 5: Rhaglen weithgareddau arfaethedig

**Mae prosiect Peilot Chwarae Stryd Caerdydd wedi arddangos mai un elfen allweddol o lwyddiant prosiect chwarae stryd lleol yw cael digon o amser i gynnal trafodaethau ac ymgynghoriadau lleol. Felly, mae'n hollbwysig i'r cyngor sicrhau digon o amser ar gyfer hyn.**

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | Sefydlu grŵp gorchwyl rhanddeiliaid |
| **Cam 2** | Dynodi a briffio aelodau etholedig allweddol |
| **Cam 3** | Y cyngor yn cytuno i ganiatáu Gorchmynion Stryd Chwarae Dros Dro (TPSO) |
| **Cam 4** | Drafftio nodiadau arweiniad a ffurflen gais a'u cymeradwyo gan reolwyr perthnasol |
| **Cam 5** | Cytuno ar gynllun hyrwyddo |
| **Cam 6** | Drafftio a chymeradwyo deunydd hyrwyddo |
| **Cam 7** | Cyhoeddi a lansio prosiect Chwarae Stryd (trwy wefan a'r cyfryngau cymdeithasol). Y cyfnod ymgeisio i agor am o leiaf chwe wythnos. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghoriad cymunedol gan yr ymgeisydd gan ddefnyddio templedi a ddarperir gan y cyngor (gweler Offeryn 1) |
| **Cam 8** | Cyfnod ymgeisio'n cau |
| **Cam 9** | Prosesu ceisiadau a hysbysu ymgeiswyr |
| **Cam 10** | Sicrhau offer |
| **Cam 11** | Cyhoeddi'r Gorchmynion |
| **Cam 12** | Dosbarthu offer |
| **Cam 13** | Sesiynau'n dechrau |
| **Cam 14** | Monitro sesiynau |
| **Cam 15** | Cynhyrchu adroddiad blynyddol |

# Offeryn 6: Ffurflen fonitro trigolion

| | |
|---|---|
| Enw'r stryd: | Dyddiad: |
| Nifer y plant: | Nifer yr oedolion: |
| Amcangyfrif o'u hoedrannau: | Nifer y stiwardiaid: |
| **Disgrifiwch sut rheolwyd y traffig:** | |
| Sawl car gafodd ei ddargyfeirio? | |
| Sawl cerbyd gafodd ei hebrwng i mewn? | |
| Unrhyw broblemau? | |
| **Myfyrdodau ar y sesiwn**<br>(Beth ddigwyddodd? Sut ydych chi'n teimlo am hyn? Pa wybodaeth gafodd ei gasglu'n ystod trafodaethau?) | |
| | |
| **Beth weithiodd yn dda?** | |
| | |
| **Beth allai fod wedi mynd yn well?** | |
| | |
| **Camau gweithredu i'w dilyn i fyny:** | |
| | |
| **Unrhyw sylwadau eraill:** | |
| | |

# Atodiad 1: Y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer strydoedd chwarae

**(O becyn cymorth Playing Out – *Toolkit for Local Authorities*)**

## Cyflwyniad

Ers i Gyngor Dinas Bryste gyflwyno 'Gorchmynion Stryd Chwarae Dros Dro' cyntaf y DU yn 2012, mae o leiaf 56 awdurdod lleol arall wedi cyflwyno polisïau tebyg, gan ganiatáu i drigolion gyflwyno cais unigol (blynyddol neu chwemisol fel arfer) i agor eu stryd i blant chwarae allan yn rhydd yn rheolaidd (yn wythnosol fel arfer). Mae'r mwyafrif o strydoedd yn gwneud hyn gan ddilyn y model 'chwarae allan' gaiff ei arwain gan drigolion, ble caiff traffig trwodd ei ddargyfeirio ond bod trigolion yn dal i gael mynediad yn eu ceir. Yn ogystal â rhwystrau ac arwyddion 'Ffordd ar Gau', bydd stiwardiaid gwirfoddol yn ailgyfeirio'r traffig ac yn arwain cerbydau i mewn ac allan fel malwen.

Mae nifer o awdurdodau lleol wedi dangos diddordeb mewn cefnogi'r model hwn o chwarae stryd dan arweiniad trigolion gan y gwelwyd ei fod yn 'ymarferol', yn gynaliadwy, yn risg isel ac yn rhad. Ond bu rhywfaint o ddryswch ynghylch y sail gyfreithiol ar gyfer gweithredu 'TPSO' neu bolisi chwarae stryd a, tan y ceir arweiniad swyddogol oddi wrth lywodraeth y DU, mae'r briffiad hwn yn anelu i helpu awdurdodau lleol i ddeall y goblygiadau cyfreithiol ac i awgrymu arfer gorau, yn seiliedig ar brofiadau cynghorau a thrigolion o bob cwr o'r wlad.

Mae gwefan Playing Out yn cynnwys arweiniad manwl, yn ysgrifenedig ac ar ffilm, ar gyfer trigolion sydd am ddilyn y model hwn yn ogystal â thystiolaeth o'r effaith iechyd a lles ar gyfer plant a chymunedau.

## Y fframwaith cyfreithiol

Ar hyn o bryd defnyddir tair gwahanol ddeddf gan gynghorau i alluogi strydoedd chwarae. Rhestrir y rhain isod, gyda rhywfaint o bwyntiau o blaid ac yn erbyn pob un.

### Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847

www.legislation.gov.uk/ukpga/Vict/10-11/89/contents

Defnyddir y Ddeddf hon gan lawer o awdurdodau lleol yn Lloegr i alluogi digwyddiadau a phartïon stryd. Yn ddiweddar fe'i defnyddiwyd gan Fryste a nifer o awdurdodau lleol eraill y tu allan i Lundain i ganiatáu Gorchmynion Stryd Chwarae Dros Dro (TPSO).

Elfennau cadarnhaol:

- Cyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth, dim angen arwyddion parhaol.
- Hyblyg: Mae'n galluogi cynghorau i wneud Gorchymyn i gau'r stryd 'pryd bynnag y mae'n orlawn … neu'n debyg o gael ei thagu' h.y. nid dim ond ar gyfer achlysuron arbennig.
- Dim costau hysbysebu.
- Dim cyfyngiad ar nifer neu hyd cau'r ffordd.
- Yn cael ei defnyddio'n llwyddiannus eisoes gan nifer o awdurdodau lleol at y diben hwn.

Materion a chwestiynau:

- Mae'r pŵer wedi ei neilltuo'n swyddogol i awdurdod yr heddlu (er bod y mwyafrif wedi dirprwyo hyn i'r awdurdod cefnffyrdd lleol)
- Ddim yn gymwys yn Llundain (wedi ei disodli gan y Ddeddf Heddlu Metropolitanaidd)
- Mae'n rhagflaenu cerbydau modur ac mae'n bosibl y caiff ei diddymu rywbryd.

### Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, pennod 27 Rhan II, adran 16

www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/27/section/16A

Defnyddir Deddf 1984 gan lawer o awdurdodau lleol (yn cynnwys yn Llundain) i alluogi digwyddiadau a phartïon stryd. Mae rhai cynghorau wedi ei defnyddio i gynnal peilot o Orchmynion Stryd Chwarae Dros Dro (TPSO) neu debyg e.e. Enfield, Swydd Hertford.

Elfennau cadarnhaol:

- Mae'n fwy diweddar na'r Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol ac yn gymwys yn gyffredinol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban
- Gall ganiatáu ar gyfer cau un stryd yn rheolaidd o dan orchymyn blynyddol unigol
- Dim angen i gynghorau hysbysebu mewn papur newydd.

Materion a chwestiynau:

- Gall y Gorchymyn ond para tri diwrnod, oni bai y ceir cytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol
- Nid yw'n glir os yw chwarae stryd anffurfiol yn cael ei ystyried yn 'ddigwyddiad perthnasol'
- Os mai dim ond un Gorchymyn a ganiateir bob blwyddyn, gallai atal strydoedd rhag cynnal parti stryd blynyddol a TPSO, oni bai y gwneir cais amdanynt o dan yr un Gorchymyn.

### Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, pennod 27 Rhan III, adrannau 29 a 31

Mae'r cymal Meysydd Chwarae Stryd yn rhoi pŵer i gynghorau i wahardd traffig dros dro ar ffyrdd sydd i'w defnyddio fel meysydd chwarae ('Strydoedd Chwarae') ac i greu is-ddeddfau sy'n ymwneud â hyn ac i godi arwyddion parhaol. Yn y 1950au a'r 60au roedd bron i 700 o strydoedd chwarae yn Llundain. Nid yw'r mwyafrif o'r 'Strydoedd Chwarae' gwreiddiol yn cael eu defnyddio bellach o ganlyniad i drwch y traffig, er bod rhai arwyddion yn dal yn eu lle.

Mae rhai bwrdeistrefi yn Llundain (yn cynnwys Hackney, Waltham Forest, Islington a Lambeth) bellach yn defnyddio'r ddeddf hon i ganiatáu sesiynau 'chwarae allan'.

Elfennau cadarnhaol:

- Darn eglur o ddeddfwriaeth sy'n caniatáu'n ddigamsyniol i gyfyngu traffig ar gyfer chwarae plant
- Hanes a thraddodiad maith
- Gallai arwyddion swyddogol 'Stryd Chwarae' helpu i gynyddu ymwybyddiaeth ymysg gyrwyr (er bod yr Adran Drafnidiaeth wedi cadarnhau y gellir defnyddio arwyddion dros dro'n unig)
- Mae'n rhoi hyblygrwydd i drigolion benderfynu amlder cau'r stryd ar gyfer chwarae (e.e. 2-6pm ar benwythnosau, Ebrill-Medi neu 4-7pm, bob dydd Mawrth a dydd Iau).
- Yn gyffredinol gymwys ar draws y DU
- Gall cyfnod y Gorchymyn gael ei gyfyngu (e.e. i un flwyddyn) – nid yw'n barhaol o reidrwydd (er mwyn sicrhau cefnogaeth barhaus trigolion).

Materion a chwestiynau:

- Efallai nad yw arwyddion 'Stryd Chwarae' parhaol yn unig yn ddigonol bellach i sicrhau y bydd gyrwyr yn cydymffurfio yn ogystal â diogelwch plant (dal angen stiwardiaid ac arwyddion 'ffordd ar gau').
- Yr angen i hysbysebu yn y wasg sy'n gost i'r cyngor fel yr uchod – mae'n bosibl mai hysbyseb flynyddol unigol yw'r unig opsiwn cost-effeithiol sy'n golygu llai o hyblygrwydd ar gyfer strydoedd. Mae llawer o awdurdodau'n gosod dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau, sy'n cyfyngu ar y broses ac yn digalonni trigolion.

Dolen i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, Strydoedd Chwarae parhaol:
www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/27/section/29

# Atodiad 2: Deddfwriaethau a pholisïau eraill sy'n sail i brosiectau chwarae stryd

Mae fframwaith polisi cryf sy'n sail i ac sy'n cefnogi mabwysiadu Gorchmynion Stryd Chwarae Dros Dro. Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r deddfwriaethau allweddol, ond nid yw'n rhestr gyflawn. Mae Llywodraeth Cymru, trwy ei *Bolisi Chwarae* cenedlaethol, yn gosod gwerth mawr ar chwarae a'i bwysigrwydd ym mywydau plant yn ein cymdeithas. Mae'n credu bod gan blant hawl sylfaenol i allu chwarae, a bod chwarae'n ganolog i'w mwynhad o fywyd a'i fod yn cyfrannu at eu lles.

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Cymru yw'r wlad gyntaf i ddeddfu dros chwarae plant trwy'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a amlinellir yn Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn mynnu y dylai awdurdodau lleol ailfeddwl gwasanaethau yn ogystal â dyluniad yr amgylchedd yn gyffredinol er mwyn gwella'r amodau sy'n cefnogi plant i chwarae allan a, thrwy hynny, elwa o'r buddiannau hyn. Mae'r cyfarwyddyd statudol (*Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*) yn nodi:

*'I lawer o blant, mae'r palmentydd ar ffyrdd y tu allan i'w cartrefi nid yn unig yn cynrychioli mynediad i ddarpariaeth chwarae, ond hefyd yn fannau yn eu rhinwedd eu hun, lle y gallant chwarae. Weithiau, dyma'r unig fan agored cyhoeddus mewn cymuned. Cydnabyddwn hefyd pan fydd plant yn teithio i rywle nad dim ond cerdded neu feicio yno a wnânt. Maent hefyd yn chwarae eu ffordd drwy'r gymuned.'*[10]

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae gan blant hawl i chwarae, fel y cydnabyddir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru'r Confensiwn fel sail ar gyfer llunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004.

Mae Pwyllgor y CU ar Hawliau'r Plentyn yn nodi yn ei Sylw Cyffredinol ar Erthygl 31, y dylai plant gael: '*amgylchedd sy'n ddigon rhydd o … draffig a pheryglon ffisegol eraill i ganiatáu iddynt symud o gwmpas yn rhydd ac yn ddiogel yn eu cymdogaethau lleol*.'[11]

## Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Mae'r strydoedd yn adnodd pwysig er mwyn i blant a phlant yn eu harddegau chwarae. Mae'r Ddeddf hon yn gosod gofyniad ar awdurdodau lleol i wella cyfleusterau a llwybrau'n barhaus ar gyfer cerddwyr a beicwyr ac i baratoi mapiau sy'n dynodi llwybrau cyfredol, a rhai y gellid eu datblygu, iddynt eu defnyddio. Mae'n mynnu y dylai cynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr yn ystod y cyfnod dylunio. Mae strydoedd diogel yn helpu i annog chwarae i ffynnu yn y gymuned leol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn anelu i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gydag ymrwymiad amlwg i ansawdd bywyd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Fel deddfwriaeth flaengar, ei nod yw sicrhau dyfodol diogel a ffyniannus ar gyfer ein plant a'n wyrion. Mae hyn yn cynnwys Cymru iachach, fwy cydnerth a chyfartal ble mae cymunedau'n fwy cydlynus. Mae gan gefnogi plant i chwarae yn eu cymuned rôl i'w chwarae yn hyn o beth.

Er mwyn i'r Ddeddf hon fod yn effeithiol, mae'n bwysig ystyried tueddiadau cyfredol ac i'r dyfodol. Tan yn ddiweddar, mae polisïau trafnidiaeth wedi annog dibyniaeth ar geir a chynyddodd traffig ar ffyrdd y DU, ar gyfartaledd, 25 y cant rhwng 1993 a 2007. Er bod lefelau diweddar yn sefydlogi, mae'r Adran Drafnidiaeth yn rhagweld cynnydd o bron i 50 y cant erbyn 2035[12].

Yn ogystal â'r cynnydd yn niferoedd ceir, mae perfformiad gwell ceir modern yn golygu y gall gyrwyr gyflymu'n hawdd a sydyn ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod bron i hanner gyrwyr yn torri'r cyfyngiad cyflymder ar ffyrdd 30mya[13].

Mae nifer y plant gaiff eu hanafu mewn damweiniau ffyrdd yn gostwng yn y DU. Mae'r raddfa anafiadau angheuol i blant 5 i 15 oed yng Nghymru (yn ôl math o drafnidiaeth), yn dynodi bod mwy o blant yn marw fel teithwyr mewn ceir na fel beicwyr neu gerddwyr[14]. Y gwirionedd yn y byd modern sydd ohoni, yw bod llai o blant yn chwarae'r tu allan ger eu cartrefi a'u bod, yn hytrach, yn deithwyr mewn cerbydau.

## Symud Cymru Ymlaen (2016-2021)

Mae'r Rhaglen Lywodraethu hon yn amlinellu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n amlinellu sut bydd y Llywodraeth yn creu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Mae meysydd blaenoriaeth iechyd cyhoeddus yn cynnwys: rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i blant (yn cynnwys lleihau profiadau plentyndod andwyol), iechyd a lles meddyliol, atgyfnerthu asedau cymunedol a'r amgylchedd – y mae pob un ohonynt yn berthnasol i chwarae.

## Deddf Iechyd y Cyhoedd (2017) a'r Strategaeth Ordewdra Genedlaethol arfaethedig

Mae'r Ddeddf hon yn cydnabod mater gordewdra yng Nghymru. Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra, a lleihau lefelau gordewdra, yng Nghymru. Mae chwarae'n allweddol wrth gynyddu gweithgarwch corfforol ymysg plant sydd, yn ei dro, yn effeithio ar lefelau gordewdra ymysg y boblogaeth. Canfu ymchwil diweddar[14] bod chwarae bywiog, yn yr awyr agored yn fwy tebygol o ddisodli gweithgareddau eisteddog o flaen sgrîn, na gweithgareddau corfforol strwythuredig.



# Atodiad 3: Cwestiynau cyffredin

O *Agor strydoedd ar gyfer chwarae – Pecyn cymorth ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid yng Nghymru.*

Dyma rai cwestiynau cyffredin oddi wrth bobl oedd am drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar eu strydoedd.

## Gwybodaeth gefndir

### Beth yw buddiannau chwarae'r tu allan yn dy stryd dy hun?

Mae llwyth o fuddiannau – gweler 10 rheswm da dros chwarae ar y stryd yn *Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd*. Y rhain yw'r buddiannau 'mawr', ond wrth ei wneud fe ddoi di ar draws llawer o rai llai, sydd ddim mor amlwg ar gyfer y plant a'r oedolion ar dy stryd.

### Beth yw Playing Out?

Mae Playing Out yn fudiad dielw a sefydlwyd gan rieni i sbarduno chwarae stryd ar draws y DU. Mae'n dîm bychan wedi ei leoli ym Mryste ac mae'n cynnig cefnogaeth cyfeillgar 'ar lawr gwlad' i drigolion Bryste yn ogystal â chynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol i drigolion ar draws y DU. Ebostia hello@playingout.net neu galwa 0117 953 7167.

### Beth yw Chwarae Cymru?

Mae Chwarae Cymru yn elusen annibynnol – ardal ein cylch gorchwyl elusennol yw Cymru. Rydym yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth am angen a hawl plant a phlant yn eu harddegau i chwarae ac i hyrwyddo arfer dda ar bob lefel o lunio penderfyniadau ac ym mhobman y gallai plant chwarae. Rydym yn croesawu prosiectau a mentrau sy'n gwneud strydoedd a chymunedau'n fannau mwy chwarae-gyfeillgar ar gyfer plant a phlant yn eu harddegau. Mae gennym gytundeb gyda Playing Out i hyrwyddo a chefnogi sesiynau chwarae stryd trigolion yng Nghymru. Rydym wedi bod yn rhan o beilota nifer o sesiynau chwarae stryd.

### Beth yw 'Strydoedd Chwarae'?

Yn wreiddiol, roedd y term 'Strydoedd Chwarae' yn cyfeirio at strydoedd yng nghanol dinasoedd, oedd, o'r 1930au ymlaen, yn cael eu dynodi gan yr awdurdodau er mwyn gweithredu fel meysydd chwarae anffurfiol yn ystod oriau penodol. Mae gwefan London Play yn cynnwys hanes strydoedd chwarae a gwybodaeth am ymdrechion i ailddatblygu strydoedd chwarae yn Llundain. Mae fersiwn wedi ei diweddaru o'r ddeddfwriaeth hon yn dal i gael ei defnyddio i wneud hyn gan rai cynghorau er mwyn galluogi cau ffyrdd yn rheolaidd ar gyfer chwarae, yn enwedig yn Llundain.

Mae'r term 'Strydoedd Chwarae' bellach yn cael ei ddefnyddio ynghyd â 'chwarae'r tu allan' neu 'strydoedd chwarae dros dro' er mwyn cyfeirio at yr achosion diweddar o drigolion yn cau ffyrdd dros dro ar gyfer chwarae, sy'n cyfrannu at sicrhau bod chwarae ar y stryd yn weithgarwch bob dydd, arferol ar gyfer plant ym mhobman.

## Gwneud cais i gau ffyrdd

### Sut alla' i 'drefnu' chwarae'r tu allan ar fy stryd?

Bydd llawer yn dibynnu ar ble rwyt ti yn y wlad, gan fod gan wahanol gynghorau wahanol bolisïau'n ymwneud â sut i gau dy ffordd ar gyfer chwarae.

### Sut alla' i ddysgu beth yw polisi fy nghyngor a phwy i gysylltu â nhw?

Galli ddechrau trwy edrych ar y map ar wefan Playing Out neu'r cyfeiriadur awdurdodau lleol – neu cysyllta gyda Chwarae Cymru neu Playing Out os na alli ddod o hyd i'r hyn yr wyt ei angen.

### Beth os nad oes gan fy nghyngor bolisi yn ei le?

Cychwynnodd y bobl y tu ôl i'r model Playing Out ym Mryste trwy gynnal sesiynau 'untro' gan ddefnyddio ffurflen gais 'parti stryd' y cyngor

– ond nid i gynnal parti stryd, ond yn hytrach ddefnyddio'r broses i gau'r ffordd ar gyfer chwarae.

### Sut alla' i fynd ati i geisio cael y cyngor i fabwysiadu polisi chwarae stryd?

Yn dilyn llwyddiant sesiynau untro cyntaf Playing Out, fe gefnogodd Cyngor Dinas Bryste y syniad a diwygio eu polisi er mwyn caniatáu i strydoedd gael eu cau yn rheolaidd. Mae'r un peth wedi digwydd mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill ar draws y DU. Mae ennill cefnogaeth wleidyddol yn allweddol, felly rho wahoddiad i wleidyddion lleol i dy sesiynau cyntaf iddyn nhw weld y buddiannau drostynt eu hunain.

Mae dod o hyd i'r person 'cywir' yn y cyngor yn allweddol – gallai'r person yma fod yn gynghorydd, neu'n swyddog o'r adran Priffyrdd, Datblygu Cymunedol, Iechyd y Cyhoedd neu'r Gwasanaethau Plant / Chwarae, felly paid â chael dy ddigalonni gan ymateb negyddol ar y dechrau – chwilia am lwybr arall.

### Pa fodelau gwahanol sydd yna ar gyfer cau ffyrdd yn rheolaidd ar gyfer chwarae?

Ym Mryste, mae'r cyngor wedi datblygu polisi sy'n caniatáu i drigolion ymgeisio am Orchymyn Chwarae ar y Stryd Dros Dro (TPSO), fydd yn caniatáu iti gau dy stryd i draffig trwodd hyd at unwaith yr wythnos. Bydd trigolion yn dal i allu gyrru i mewn ac allan yn araf iawn, wedi eu hebrwng gan 'stiwardiaid' gwirfoddol.

Mae cynghorau eraill nawr yn cynnig fersiynau o'r polisi hwn, gan ganiatáu i drigolion benderfynu pa ddyddiau ac oriau i ymgeisio amdanynt, tra y bydd eraill yn cynnig dyddiadau penodol trwy gydol y flwyddyn. Fel arfer, bydd TPSOs yn para am flwyddyn, ac wedi hynny bydd angen iti ail-ymgeisio.

Mae rhai lleoedd eraill (yn enwedig yn Llundain) yn ceisio adfer 'strydoedd chwarae' parhaol mwy traddodiadol gydag arwyddion parhaol. Mewn egwyddor, gallai'r model hwn ganiatáu cau ffyrdd yn amlach, bod dydd hyd yn oed, er y byddai dal angen i'r trigolion wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd yn ddiogel.

'Does fawr o ots pa lwybr cyfreithiol y bydd y cyngor yn dewis ei ddefnyddio, cyn belled â bod trigolion yn gallu agor eu stryd ar gyfer chwarae yn rhad, rhwydd a diogel, a hynny'n rheolaidd.

### Beth fydd angen imi ei wneud cyn ymgeisio?

Y peth pwysicaf iti ei wneud cyn ymgeisio fydd siarad gyda dy gymdogion am y syniad, efallai trwy gynnal cyfarfod anffurfiol, a gwneud yn siŵr bod gennyt ddigon o gefnogaeth a dy fod wedi ceisio tawelu unrhyw bryderon.

### Sut ddylwn i ymgeisio?

Ym Mryste, bydd y cyngor angen chwe wythnos i brosesu ceisiadau, ac mae amserlen debyg gan y rhan fwyaf o gynghorau eraill. Yn Hackney, Llundain ceir pedwar dyddiad cau bob blwyddyn ar gyfer derbyn ceisiadau. Y cyngor cyffredinol yw y gall gymryd tua thri mis i gychwyn. Unwaith iti benderfynu pa mor aml, a faint o'r stryd y byddi am ei gau a dy fod wedi ennill cefnogaeth pobl eraill, bydd angen iti fynd trwy'r broses ymgeisio ffurfiol.

Mewn rhai awdurdodau lleol yn y DU, mae'r cyngor yn darparu 'llythyr ymgynghori' safonol iti ei lungopïo a'i roi trwy bob drws ar dy stryd. Os nad oes un o'r rhain gan dy gyngor, mae dal yn syniad da i wneud hyn er mwyn sicrhau bod pawb yn teimlo dy fod wedi ymgynghori gyda nhw –



ceir templed o lythyr ymgynghori ar dudalen 20 iti ei ddefnyddio neu ei addasu. Mae'n syniad da ychwanegu nodyn cyfeillgar i dy gymdogion i fynd gyda'r ymgynghoriad ffurfiol.

Bydd gan bob awdurdod lleol broses sydd ychydig yn wahanol. Chwilia trwy fap Playing Out i ddysgu am broses dy gyngor lleol a phwy i gysylltu â nhw. Os nad oes polisi yn ei le neu os nad oes gan y cyngor broses fyddai'n caniatáu ichi chwarae'r tu allan, cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru am gyngor.

### Pwy sydd angen imi ymgynghori â nhw?

Dylet ymgynghori gyda'r holl drigolion a busnesau o fewn yr ardal yr wyt yn gobeithio ei chau – fel arfer, trwy roi llythyr trwy eu drysau – a rhoi cyfle iddyn nhw godi unrhyw wrthwynebiadau neu bryderon. Efallai yr hoffet hefyd roi gwybod i bobl eraill sydd y tu allan i'r ardal gaiff ei chau ond allai gael eu heffeithio, er 'does dim rhaid iti wneud hynny.

### Sut ddylwn i ddelio gyda gwrthwynebiadau a phryderon?

Mae'n beth da sicrhau dy fod wedi gwahodd a gwrando ar gymaint o wahanol sylwadau â phosibl ar y stryd a dy fod wedi ceisio delio gydag unrhyw bryderon a godwyd mewn ffordd gymdogol ac agored (gweler Pryderon cyffredin yn *Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd*). Cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru os byddi angen cyngor a chefnogaeth, gan y gall delio gyda gwrthwynebiad cryf gan gymdogion fod yn ddigon annifyr.

### Fydd trigolion sydd ddim yn hapus yn gallu stopio'r cais rhag mynd yn ei flaen?

Bydd gan bob cyngor ei bolisïau ei hun ar gyfer ymateb i wrthwynebiadau ac mae'n werth holi beth yw'r rhain ymlaen llaw.

Mewn nifer o awdurdodau lleol caiff gwrthwynebiadau a dderbynnir gan y cyngor eu hystyried yn ofalus ac anfonir ateb atynt. Nod y cyngor fydd ymdrechu i ddatrys neu fynd i'r afael ag unrhyw wrthwynebiadau er mwyn i'r sesiynau allu bwrw yn eu blaen. Weithiau, mae'n bosibl y gwrthodir cais i gau stryd os bydd nifer o bobl wedi gwrthwynebu neu os nad oes modd datrys gwrthwynebiadau 'allweddol', ond mae hyn yn annhebygol iawn.

### Alla' i weld stryd yn cynnal sesiwn chwarae'r tu allan cyn imi ymgeisio?

Mae sesiynau chwarae'r tu allan mewn nifer o wahanol ardaloedd o'r wlad. Gweler y map ar wefan Playing Out neu cysyllta gyda Chwarae Cymru os hoffet gysylltu gyda rhywun sy'n lleol i ti fyddai'n fodlon dy wahodd draw i'w stryd a rhannu eu profiadau.

### Alla' i gynnal sesiwn untro i roi tro ar bethau?

Galli. Weithiau, bydd hyn yn syniad da os wyt ti'n ansicr neu pan wyt ti'n gwybod bod rhai trigolion yn ansicr am y syniad. Mewn rhai ardaloedd galli drefnu sesiwn untro gan ddefnyddio'r ffurflen TPSO neu ymgeisio dan y drefn parti stryd. Galli ailymgeisio am ail TPSO yn ystod yr un flwyddyn os byddi'n penderfynu cynnal sesiynau rheolaidd pellach. Os wyt ti'n ansicr ynghylch y modd gorau i wneud hyn, cysyllta gyda'r cyngor i holi beth yw'r broses yn dy ardal di. Gweler y map ar wefan Playing Out neu'r cyfeiriadur awdurdodau lleol am y wybodaeth gyswllt yn dy ardal.

### Sut mae hyn yn wahanol i barti stryd?

Y prif wahaniaethau yw:

- Gall trigolion ddal i yrru i mewn ac allan o'r stryd
- Caiff lleoliadau cau'r ffordd eu 'stiwardio'
- Mae'r pwyslais ar chwarae rhydd, wedi ei arwain gan y plant (nid gweithgareddau wedi eu trefnu)
- Cyfnod byr o amser (un i dair awr)
- Potensial i ddod yn rhan arferol, rheolaidd o fywyd y stryd.

Ond mae'n dal i fod â rhai o'r un buddiannau â pharti stryd, o ran gweld cymdogion yn dod i adnabod ei gilydd a'r stryd yn teimlo'n fwy diogel a chyfeillgar o ganlyniad. Bydd llawer o strydoedd yn cynnal sesiynau chwarae'r tu allan rheolaidd yn ogystal â pharti stryd blynyddol, sy'n teimlo'n fwy fel achlysur arbennig ar gyfer y stryd gyfan.

## Materion ymarferol

### Pa waith, amser ac ymdrech sydd ynghlwm â threfnu sesiynau chwarae'r tu allan?

Mae'n golygu tua 20 awr o 'waith' ar gyfer y prif drefnydd, o drefnu cyfarfod cychwynnol i gynnal y sesiwn cyntaf. Efallai bod hyn yn swnio fel llawer o amser, ond bydd hyn dros nifer o fisoedd a gellir ei rannu rhwng nifer o bobl. Yn ogystal, bydd llawer o'r amser yn cael ei dreulio'n siarad gyda dy gymdogion ac fe allai fod yn bleserus! Rho ddigon o amser i dy hun, cymer dy amser a gwna gymaint neu gyn lleied ag y mynni. Rydym wedi derbyn llawer o adborth oddi wrth bobl sy'n tystio pa mor werth chweil a boddhaus y maent yn teimlo oedd eu hymdrechion. Cysyllta gyda Playing Out neu Chwarae Cymru os oes gennyt unrhyw gwestiynau neu bryderon, os wyt ti angen cefnogaeth, neu os wyt ti am siarad trwy bethau.

### Pa mor aml ac am ba hyd fyddwn ni'n cau'r stryd?

Bydd angen i bob stryd ystyried beth fydd yn gweddu orau iddyn nhw, o fewn y cyfyngiadau a bennir gan y cyngor. Bydd dyddiau, amserau ac amlder cau'r stryd yn dibynnu ar argaeledd trigolion, trefnyddion a phlant a galli hefyd ystyried ffactorau eraill, er enghraifft os oes eglwys neu ysgol ar dy ffordd. Bydd rhai strydoedd yn cau am awr neu ddwy ar ôl ysgol ar ddiwrnod yn ystod yr wythnos, bydd eraill yn cau ar y penwythnos.

Bydd strydoedd yn cau yn wythnosol, bob pythefnos neu'n fisol, yn ddibynnol ar bolisi'r cyngor. Efallai y byddi am amrywio'r hyn y byddi'n ei wneud ar wahanol adegau o'r flwyddyn, er enghraifft cau'n llai aml yn y gaeaf, neu ar y penwythnos yn ystod y gaeaf ac yn ystod yr wythnos yn yr haf. Bydd angen iti ystyried sawl person sy'n debyg o gymryd rhan a fydd yn gallu helpu.

Efallai yr hoffet hefyd ystyried ffactorau eraill fel gweithgareddau ar ôl ysgol wedi eu trefnu (os bydd nifer fawr o'r plant yn mynd i gyfarfod Sgowtiaid ar nos Lun, efallai nad dyma'r diwrnod gorau i chwarae'r tu allan).

### Allwn ni ddal i chwarae'r tu allan yn y gaeaf neu wedi iddi dywyllu?

Bydd llawer o strydoedd yn chwarae'r tu allan trwy gydol y flwyddyn. Mae profi gwahanol dywydd a thymhorau yn un o fuddiannau pennaf chwarae'r tu allan. Yn y gaeaf, gall hefyd fod yn haws ac yn fwy deniadol i chwarae'r tu allan ar y stryd am gyfnod byr, yn hytrach na cherdded yr holl ffordd i'r parc.

Os wyt ti'n trefnu sesiynau ar ôl ysgol, efallai y byddi am eu cadw'n fyr (mae hyd yn oed tri chwarter awr yn gyfle gwerthfawr i redeg o gwmpas) wrth i'r dyddiau fyrhau ac fel y bydd yn oeri i'r oedolion sefyllian o gwmpas, neu, os yw'r broses ymgeisio leol yn caniatáu hynny, gallet newid i gynnal sesiynau penwythnos trwy'r gaeaf a'u cynnal yn gynharach yn y dydd. Mae'n syniad da ei gadw i fynd os oes modd (ond heb wthio'r mater), er mwyn cynnal ymdeimlad ei fod yn rhywbeth 'normal' a rheolaidd.

Gallet hefyd feddwl am wneud sesiynau'r gaeaf yn 'arbennig' mewn rhyw ffordd, er mwyn cynnal brwdfrydedd. Mae rhai strydoedd wedi cynnau tanau bychain mewn 'padell dân' neu wedi dod â siocled poeth allan i'w rannu.

### Allwn ni chwarae allan yn y glaw?

Yn bendant. Rydym wedi dysgu bod plant, yn gyffredinol, wrth eu bodd yn cael cyfle i wisgo eu welis a chwarae allan yn y glaw (ac eto, maen nhw'n fwy tebygol o wneud hyn y tu allan i ddrws eu tŷ, yn hytrach na mynd i'r parc). Cyn belled â bod y stiwardiaid yn hapus i sefyll y tu allan a dy fod wedi ystyried unrhyw risgiau ychwanegol, 'does dim rheswm i ganslo.

Os yw hi'n wyntog iawn, gallai hyn fod yn fwy o broblem – bydd angen iti, yn benodol, wneud yn siŵr bod unrhyw arwyddion wedi eu hangori'n ddiogel.

### A oes cyfyngiad oedran?

Na. Dylai sesiynau chwarae'r tu allan fod yn agored i bawb a heb eu cyfarwyddo. Rydym wedi sylwi bod plant hŷn (deuddeg oed ac i fyny) fel arfer yn llai awyddus i fod mewn amgylchedd sydd â chymaint o oruchwyliaeth oedolion a, gobeithio,



bod ganddynt fwy o ryddid i grwydro ymhellach oddi adref. O ran plant iau, cyn belled â'u bod yn gallu symud, fe allan nhw chwarae. Bydd hyd yn oed babis a phlantos bach yn cael llawer o'r profiad ac mae'n ffordd wych i blant o bob oed ryngweithio â'i gilydd. Yn aml, bydd plant o wahanol ysgolion yn cael cyfle i gwrdd a chwarae hefyd.

### Beth os ydw i'n byw ar briffordd neu lwybr bysiau?

Efallai y bydd hyn yn broblem o ran cau'r ffordd, ond cofia wirio gyda'r cyngor. Fel arall, mae'n bosibl iawn bod pethau eraill y gallet ystyried eu gwneud i alluogi mwy o chwarae'r tu allan a gwell ymdeimlad o 'berthyn' ar dy stryd. Edrych ar y Pethau rhwydd a didrafferth yn *Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd* am ysbrydoliaeth. Mae 'Chwarae palmant' yn un model y bydd rhai strydoedd yn ei ddefnyddio, ble bydd trigolion yn cytuno ar amser penodol i ddod allan a lled-oruchwylio eu plant yn chwarae allan ar y palmant. Os yw traffig yn gyrru'n broblem, efallai yr hoffet feddwl am geisio sicrhau rhywfaint o gamau tawelu traffig, neu gynnal ymgyrch '20s Plenty'.

### Pa arwyddion a rhwystrau ddylen ni eu defnyddio? Sut alla' i gael gafael ar y rhain?

Bydd pob lleoliad ble mae'r ffordd wedi ei chau angen, o leiaf, arwydd 'Ffordd ar Gau' swyddogol a rhwystr cadarn ar draws y ffordd. Yn dibynnu ar batrwm y strydoedd cyfagos, bydd rhai ffyrdd angen arwyddion 'Ffordd Ymlaen ar Gau' hefyd i rybuddio gyrwyr na fydd modd iddyn nhw fynd trwodd ac efallai y bydd rhai angen rhwystrau ychwanegol fel conau. Bydd y stiwardiaid yn gwisgo gwasgodau llachar a bydd ganddynt chwibanau i'w chwythu pan fydd car am ddod trwodd. Gall Chwarae Cymru dy gynghori ar becynnau offer cau ffordd.

### Beth os ydw i am ganslo sesiwn neu newid yr amserau?

Os penderfyni di ganslo sesiwn, efallai oherwydd tywydd gwael neu ddiffyg stiwardiaid, galli wneud hynny heb hysbysu'r cyngor. Mae'r un peth yn wir os penderfyni gynnal sesiwn fyrrach na'r hyn yr ymgeisiwyd amdano. Er enghraifft, os wyt wedi derbyn caniatâd i gau o 3.00pm tan 6.00pm ond eich bod yn penderfynu chwarae'r tu allan o 4.00pm tan 5.30pm, mae hynny'n iawn cyn belled â dy fod yn egluro'n gwbl glir i'r trigolion mai dyma beth fyddi'n ei wneud. Fodd bynnag, os byddi am newid amserau neu ddyddiadau sesiynau i rai nad yw dy ganiatâd cyfredol yn ei gwmpasu, bydd angen iti gysylltu gyda'r cyngor ac efallai y bydd angen iti ail-ymgeisio.

### Ddylwn i geisio cael sylw yn y cyfryngau lleol ar gyfer y gweithgarwch ar fy stryd?

Gall gofyn i dy bapur newydd neu dy orsaf radio leol ddod draw i sesiwn fod yn ffordd wych i gael pobl i feddwl am y mater, lledaenu'r syniad o chwarae'r tu allan a hyd yn oed ennill cefnogaeth y cyngor. Fodd bynnag, rydym wedi sylweddoli bod ambell i beth i'w ystyried yn gyntaf. Cysyllta gyda Playing Out os wyt ti am drafod neu os oes gennyt unrhyw gwestiynau.

### Sut alla' i sicrhau mai dim ond pobl o fy stryd ddaw i'r sesiwn?

Mae'r mwyafrif o strydoedd yn briffyrdd cyhoeddus ac yn fannau cyhoeddus, sy'n un o'r pethau gwych amdanyn nhw, felly byddai'n anghywir ceisio atal

pobl rhag dod i'r stryd o fannau eraill. Dim creu 'cymuned gaeëdig' yw'r bwriad. Ar yr un pryd, 'dwyt ti ddim am sylweddoli dy fod yn cynnal digwyddiad cyhoeddus. Cyn belled â dy fod yn cadw unrhyw gyhoeddusrwydd i'r stryd ei hun ac nad wyt yn cynnal unrhyw weithgareddau wedi eu trefnu, rwyt yn annhebyg iawn i weld mwy na llond dwrn o 'ymwelwyr ychwanegol' yn dod draw i weld beth sy'n digwydd.

### Fydd angen imi gael unrhyw offer neu drefnu gemau?

Na. Mae cadw pethau'n 'normal' yn dda ac yn rymus, ac mae'n dangos mai'r pethau pennaf y mae plant eu hangen yw lle a rhyddid i chwarae ar riniog y drws, yn hytrach na rhywun yn dangos iddyn nhw beth i'w wneud. O'n profiad ni, fyddan nhw ddim angen llawer i wneud y mwyaf o'r cyfle a byddant yn barod iawn i ddod â'u teganau eu hunain allan, yn sgwteri, beics, esgidiau rholio a chylchoedd hwla. Mae'r stryd yn 'ddalen wag' wych, fydd yn annog y plant i fod yn greadigol a throi'r gofod yn eiddo i'w hunain.

Fodd bynnag, efallai yr hoffet ddarparu rhai eitemau ychwanegol fel sialc palmant, rhaffau sgipio hir, cylchoedd hwla a pheli meddal (yn lle peli caled).

### Sut allwn ni sicrhau na fydd pobl sydd heb blant yn teimlo eu bod yn cael eu heithrio?

Gwna'n siŵr bod unrhyw lythyrau a chyhoeddusrwydd yn mynd i bob cartref, nid dim ond i'r rhai sydd â phlant neu'r rheini yr wyt yn credu fyddai â diddordeb. Dechrau'r broses gyda chyfarfod agored ar gyfer y trigolion i gyd a chofia egluro dy fod am i hyn fod yn rhywbeth ar gyfer y stryd gyfan, nid dim ond plant ifanc a'u rhieni. Gall pobl wedi ymddeol a myfyrwyr fod yn arbennig o ddefnyddiol fel stiwardiaid ac efallai y byddai pobl sydd heb blant yn gwerthfawrogi cael mynediad i'r gymuned na fyddai ganddyn nhw fel arall.

### Beth ddylwn i ei wneud am strydoedd cefn?

Mae'n bwysig iti asesu risg yr holl ffyrdd / hawliau tramwy sy'n arwain i'r stryd yr wyt wedi ei chau ar gyfer chwarae. Bydd angen stiwardio pob cyffordd. Hyd yn oed os yw'r stryd gefn yn ffordd bengaead neu'n lôn gefn sy'n arwain at garejis, mae'n bwysig rhoi arwydd i yrwyr sy'n dod allan o'r lôn yma bod y ffordd ymlaen ar gau, ac i stiwardio'r gyffordd.

## Cyfrifoldeb ac atebolrwydd

### Beth yw cyfrifoldebau'r ymgeisydd?

Dylai'r ffurflen gais neu'r cais am Orchymyn Chwarae ar y Stryd Dros Dro (TPSO) egluro cyfrifoldebau'r ymgeisydd (y person fydd yn arwyddo'r ffurflen). Fel arfer, bydd y rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod cau ac ailagor y ffordd yn cael ei reoli'n ddiogel a gan ddefnyddio'r arwyddion cywir
- Sicrhau na wneir unrhyw ddifrod parhaol i'r briffordd gyhoeddus
- Sicrhau bod rhieni'n ymwybodol eu bod yn gyfrifol am eu plant eu hunain, fel unrhyw ddiwrnod arall.

Fel yr ymgeisydd enwebedig, fydd dim angen iti fod yn bresennol ym mhob sesiwn. Fodd bynnag, byddi'n dal i fod yn gyfrifol am y pwyntiau a restrir.

Yn aml, bydd yr ymgeisydd yn mabwysiadu rôl y trefnydd gan sicrhau bod stiwardiaid yn eu lle a bod arwyddion yn cael eu gosod.

### Beth ddylen ni ei wneud os bydd plant yn troi i fyny heb oedolyn?

Cyfrifoldeb y trefnyddion a'r stiwardiaid fydd gwneud y stryd yn gymharol ddiogel trwy stopio traffig trwodd a sicrhau bod trigolion yn gyrru yn araf iawn, ac nid gwarchod plant pobl eraill. Mae'n werth ymdrechu ymlaen llaw i sicrhau bod pob cyhoeddusrwydd yn nodi'n glir mai rhieni fydd yn gyfrifol am eu plant eu hunain ac, er y bydd oedolion sydd o gwmpas yn anelu i gadw llygad am unrhyw broblemau, ni fydd unrhyw un yn 'gwarchod' plant ddaw i'r stryd heb oedolyn.

Os oes gennyt unrhyw wir bryderon am blant ddaw draw ar eu pen eu hunain, unai oherwydd eu bod yn ymddangos yn rhy ifanc neu'n rhy

anghyfrifol i fod allan ar eu pen eu hunain, fe ddylet geisio siarad gyda'u rhieni. Os ydyn nhw wedi dod o'r tu allan i dy stryd di, efallai y gallet roi nodyn i'r plentyn fynd adref, yn egluro'n gwrtais mai unig rôl y trefnyddion yw rheoli'r traffig a bod rhieni'n dal i fod yn gwbl gyfrifol am eu plant eu hunain. Eglura, mewn ffordd gyfeillgar, bod chwarae'r tu allan yn ymdrech gymunedol ar y cyd, a gwahodd y rhieni i ddod draw i'r sesiwn nesaf a helpu i stiwardio a / neu gwrdd â gweddill y cymdogion.

### Fydd stiwardiaid angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS – yr hen CRB)?

Cyn belled â dy fod yn glir mai digwyddiad anffurfiol yw hwn, a drefnir gan gymdogion ar eu stryd eu hunain, bod rhieni'n gyfrifol am eu plant eu hunain ac nad wyt ti'n darparu gofal plant wedi ei drefnu, ddylai bod dim rheswm i fynd trwy'r cam ffurfiol hwn. Mae'r sesiynau, yn syml, yn ffordd i blant chwarae mewn stryd ddi-draffig. Mae'n bosibl y byddan nhw'n dod i gysylltiad â chymdogion o bob oed a gall hyn fod yn ffordd dda i ddysgu am ryngweithio'n ddiogel ac yn gadarnhaol gydag oedolion yn eu cymuned. Rôl y stiwardiaid, yn syml, fydd gwneud yn siŵr bod y stryd yn ddiogel ac nid gwarchod unrhyw blant. Os ydych chi'n fudiad sy'n darparu gwirfoddolwyr neu weithwyr chwarae yna, bydd angen ichi ddilyn eich gweithdrefnau diogelu eich hun.

### Fydd angen inni ddarparu cymorth cyntaf?

Mae wastad yn dda i wybod os yw un o dy gymdogion wedi ei hyfforddi mewn cymorth cyntaf, neu os oes gan rywun flwch cymorth cyntaf neilltuol o dda. Ond, os bydd plentyn yn anafu ei hun, bydd i fyny i'r rhiant neu'r gofalwr i'w trin, fel y byddent pe bae eu plentyn yn chwarae mewn parc neu ar y palmant.

### Mae fy stryd ar fryn serth / oddi ar ffordd fawr brysur iawn / yr ochr draw i gornel ddall – fydd hi'n ddiogel?

Fe ddylet gynnal asesiad risg syml a chofio nodi unrhyw faterion penodol sy'n berthnasol i dy stryd. Ar fryn, er enghraifft, efallai y byddai plant yn achub ar y cyfle i *ffri-wilio* ar feiciau neu sgwteri mewn modd na fydden nhw'n ei wneud pan fo'r ffordd yn agored i geir. Os digwydd damwain, gellid cyhuddo'r trefnyddion o annog yr ymddygiad yma, felly bydd angen iti feddwl sut i leihau'r risg yma. Bydd datgan yn glir bod rhieni'n gyfrifol am eu plant eu hunain yn mynd beth o'r ffordd tuag at sicrhau hyn ond efallai y bydd angen iti feddwl hefyd am roi mesurau eraill yn eu lle er mwyn cadw pawb yn ddiogel, fel llinell dechrau a gorffen wedi ei thynnu mewn sialc ar draws y ffordd.

Os oes gennyt bryderon am y traffig, a phatrwm penodol dy stryd, dylai swyddogion y cyngor sy'n delio gyda dy gais i gau'r ffordd allu helpu i dy gynghori ar y defnydd cywir a'r drefn ar gyfer gosod arwyddion a rhwystrau i sicrhau diogelwch.

### Allen i (fel y trefnydd / ymgeisydd 'enwebedig' ar fy stryd) fod yn atebol, o bosibl, am anafiadau neu ddifrod allai ddigwydd o ganlyniad i gynnal y sesiwn?

Mae rhai posibiliadau sy'n destun pryder imi'n cynnwys:

- Anafiadau'n digwydd yn ystod y sesiwn
- Difrod i eiddo (yn cynnwys eiddo'r cyngor / adran priffyrdd) yn ystod y sesiwn
- Plant yn cael eu taro gan gar y tu allan i gyfnod y sesiwn / yr ardal sydd wedi ei chau.

Mae wastad rhywfaint o risg o atebolrwydd am anafiadau neu ddifrod i eiddo os byddi'n trefnu unrhyw ddigwyddiad. Ond, os byddi wedi cwblhau asesiad risg a glynu at y canllawiau a geir yn y canllaw hwn byddi wedi cymryd camau i warchod dy hun yn erbyn unrhyw hawliad posibl.

Yn gyffredinol, byddi ond ag atebolrwydd posibl am yr hyn fydd yn digwydd o fewn yr ardal sydd wedi ei chau ac yn ystod cyfnod y sesiwn (neu'n syth cyn neu ar ôl y sesiwn). Byddai unrhyw ddifrod arall yn rhy ymylol.

Yn olaf, cofia na fydd pob person sy'n dioddef anaf bychan neu ddifrod i'w eiddo, o reidrwydd, yn gwneud hawliad. Cofia sicrhau dy fod yn delio gydag unrhyw anafiadau fydd yn digwydd mewn modd cefnogol, a chyflym a chadw gofnod am bob un, rhag ofn.

**A fyddai Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (unai yn fy enw i neu grŵp o drigolion) yn fy amddiffyn os bydd unrhyw un yn dioddef anaf neu ddifrod i eiddo?**

Nid oes gan y mwyafrif o strydoedd sy'n cynnal sesiynau chwarae'r tu allan ar hyn o bryd unrhyw yswiriant ac yn sicr gallai'r gost (rhwng £50 a £100) roi stop ar bopeth, ond mae'n fater i bob stryd unigol benderfynu arno. Dyma'r cyngor cyfreithiol y mae Playing Out wedi ei dderbyn:

*'Os cynhaliwch chi asesiadau risg gofalus a rhoi rheoliadau addas yn eu lle ddylech chi fod â dim i boeni yn ei gylch. Fodd bynnag, gall y llysoedd fod yn llawn cydymdeimlad i bobl sydd wedi eu hanafu, yn enwedig plant. Felly, byddem yn cynghori sicrhau Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, wnaiff dalu am hawliadau o'r fath ar eich rhan.'*

Am ganllawiau i'w gwneud â yswiriant gweler tudalen 11.

**Fydd y trefnydd enwebedig yn atebol am unrhyw esgeulustod os nad yw'n bresennol?**

Gallai'r trefnydd enwebedig fod yn atebol os yw achos unrhyw anaf neu ddifrod yn rhan annatod o'r modd y cafodd y digwyddiad ei gynllunio neu ei drefnu. Er enghraifft, os oeddet wedi methu dynodi lôn gefn fel mynedfa bosibl ar gyfer ceir a bod car wedi dod i'r stryd o hon ac achosi anaf. Fodd bynnag, mae'n debyg na fyddai atebolrwydd pe bai stiward mynedfa benodedig yn absennol, a hynny'n groes i dy gyfarwyddiadau, a bod yr un ddamwain yn digwydd.

Fydd dim ots am y gwahaniaeth hwn os oes gennyt Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus priodol gan y byddai'r yswiriant yn cwmpasu'r ddau fath o atebolrwydd yma. Ond, yn gyffredinol, mae'n well bod yn bresennol yn y digwyddiad os oes modd, gan mai ti fydd â'r trosolwg gorau o'r holl sesiwn a ti fydd yn y sefyllfa orau i sylwi os nad yw rhywun yn cadw at y cynllun. Os nad yw hyn yn bosibl, mae'n werth penodi rhywun dibynadwy yn dy le.




**Pwy fydd yn atebol os caiff plentyn ei anafu gan gar ddaw i mewn i'r adran o'r ffordd sydd wedi ei chau?**

Cyn belled â dy fod wedi glynu at y gweithdrefnau cywir sy'n berthnasol i gau ffyrdd a stiwardio, mae bron yn sicr mai gyrrwr y car fyddai'n cael ei ystyried yn atebol yn y sefyllfa hon. Cafwyd achos ym Mryste yn 2014, ble gyrrodd person i mewn i'r rhan o'r ffordd oedd wedi ei chau yn gyflym iawn. Er, yn ffodus iawn, na anafwyd unrhyw un cafwyd y gyrrwr yn euog o yrru'n beryglus.

**Os bydd y cyngor yn cynnwys 'cymal indemniad' wrth gytuno i gau'r ffordd, fydd hynny'n eu rhyddhau o unrhyw atebolrwydd?**

Nid yw'n bosibl i'r cyngor eithrio atebolrwydd am anaf personol neu farwolaeth a achosir gan ei esgeulustod ei hun. Er enghraifft, pe bae carreg balmant wedi torri y byddai'r cyngor yn atebol amdani pan fyddai'r ffordd ar agor, fe fyddan nhw'n dal i fod yn atebol pan fo'r ffordd wedi ei chau. Fodd bynnag, mae'r cymal yn effeithiol ar gyfer sicrhau na fyddan nhw'n gyfrifol am unrhyw atebolrwydd am unrhyw beth sy'n codi o ganlyniad uniongyrchol i gau'r ffordd a / neu'r sesiwn.

### Pa gamau alla' i eu cymryd i leihau risg ac atebolrwydd am unrhyw ddamweiniau allai ddigwydd yn ystod neu ar ôl sesiwn?

Mae'n werth cynnal asesiad risg a chynnwys pobl eraill yn hyn fel bod cymaint o bobl â phosibl yn gwbl ymwybodol o'r risgiau a bod y cyfrifoldeb yn cael ei rannu. Bydd llawer o gynghorau'n mynnu hyn fel rhan o'r cais i gau stryd dros dro. Defnyddia'r canllawiau yn *Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd* a'r papur briffio i stiwardiaid a dilyn unrhyw gyfarwyd diadau neu arweiniad a roddir gan dy gyngor ar gau'r ffordd yn ddiogel. Yn olaf, gwna'n siŵr bod pawb sy'n rhan o'r cynllun yn ymwybodol o unrhyw risgiau a chyfrifoldebau, yn enwedig rhieni a stiwardiaid.

## Cwestiynau eraill

### Rwy'n byw mewn stryd bengaead ble mae'r plant yn chwarae allan eisoes ond fe hoffwn ei gwneud hi'n fwy diogel ond heb fod yn rhy ffurfiol. Unrhyw awgrymiadau?

Os yw'r plant yn chwarae'r tu allan yn naturiol eisoes mae hynny'n wych a bydd angen iti fod yn ofalus nad wyt ti'n cyfleu neges bod rhywbeth o'i le gyda hyn, tra hefyd yn ei gwneud hi'n fwy diogel ac annog mwy o blant i chwarae'r tu allan. Mae rhai strydoedd pengaead wedi llwyddo i gael y cyngor i gytuno i osod arwyddion 'Plant yn Chwarae' anffurfiol i rybuddio gyrwyr ceir i yrru'n ofalus. Bydd rhai yn cynnal fersiwn o sesiynau 'chwarae'r tu allan' heb gau'r ffordd yn ffurfiol, ond trwy gael stiwardiaid yn eu lle i hebrwng ceir i mewn ac allan yn ddiogel.

### Mae cau fy stryd yn teimlo fel cam mawr. Oes pethau llai y gallwn eu gwneud?

Oes, mae llawer o bethau – edrych ar y rhestr Pethau rhwydd a didrafferth ar dudalen 31 neu ymuna â grŵp Facebook Playing Out i weld beth mae pobl wedi eu gwneud ar strydoedd eraill. Bydd unrhyw beth y galli ei wneud i ddod i adnabod dy gymdogion yn well neu ddechrau treulio mwy o amser allan ar dy stryd yn helpu i greu'r amodau ar gyfer chwarae stryd.

### Alla' i drefnu chwarae stryd ger ysgol fy mhlant?

Galli. Mae trefnu sesiwn chwarae ar y stryd ger ysgol yr un fath â stryd chwarae 'arferol' ond gydag ychydig o elfennau ychwanegol. Mae'n bwysig sicrhau dy fod yn ymgynghori'n llawn gyda'r ysgol yn ogystal â'r trigolion i gyd, a'u bod yn cefnogi'r syniad yn llwyr a bod yr ysgol yn gallu aros yn agored yn ystod y sesiwn chwarae ar y stryd. Mae Hackney Play yn Llundain wedi ysgrifennu canllaw ar chwarae ar y stryd ger ysgolion:
www.hackneyplay.org/playstreets/tools-for-schools



# Cyfeiriadau


[1] Lester, S. a Russell, W. (2008) *Play for a change: play, policy and practice: a review of contemporary perspectives*. Llundain: Play England

[2] Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (2013) *Sylw Cyffredinol Rhif 17 (2013) ar hawl y plentyn i orffwys, hamdden, chwarae, gweithgareddau adloniadol, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau (Erthygl 31)*. Genefa: Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn

[3] Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Hawlfraint y Goron

[4] https://llyw.cymru/cerdded-beicio

[5] Llysgenhadon Ifainc Hawl i Gael Hwyl, Prosiect Hawl i Gael Hwyl Mencap Cymru

[6] Yr Adran Drafnidiaeth (2012b) *TRA99 – Forecasts of traffic* (pdf). Ar gael ar: www.gov.uk/government/statistical-data-sets/tra99-forecasts-of-traffic

[7] Prifysgol Bryste (2017) *Why temporary street closures for play make sense for public health*

[8] *Ibid*

[9] Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2012) *Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo agwedd gytbwys tuag at risg.* Ar gael ar: www.chwaraecymru.org.uk/cym/ymchwilrisg

[10] *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*

[11] *Sylw Cyffredinol Rhif 17 (2013) ar hawl y plentyn i orffwys, hamdden, chwarae, gweithgareddau adloniadol, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau (Erthygl 31)*

[12] *TRA99 – Forecasts of traffic* (pdf)

[13] Yr Adran Drafnidiaeth (2011) *Free Flow Vehicle Speeds in Great Britain 2011* (pdf). Ar gael ar: www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/9069/free-flow-vehicle-speeds-2011.pdf

[14] Lyons *et al.* (2017) *Preventing child injuries in Wales: Needs Assessment*. Ysgol Feddygol, Prifysgol Abertawe, Y DU

[15] *Why temporary street closures for play make sense for public health*

# Diolchiadau


**Rydym yn ddiolchgar i'r canlynol am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau:**

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro / Tim Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro

- Anne Phillips, Uwch Arbenigwr Hybu Iechyd
- Tom Porter, Ymgynghorwr mewn Iechyd Cyhoeddus

### Cyngor Caerdydd

- Cheryl Owen, Arweinydd Adran (Gweledigaeth Trafnidiaeth, Polisi a Strategaeth), Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd Paul Carter, Pennaeth Trafnidiaeth, Gweithrediadau'r Ddinas
- Jane Tariq, Uwch Weithiwr Chwarae, Gwasanaethau Chwarae Plant
- Justyn Sanderson, Gweithiwr Cefnogaeth Datblygiad Chwarae, Gwasanaethau Chwarae Plant
- Lee Patterson, Uwch Swyddog Ieuenctid – Rhaglen Caerdydd - Dinas sy'n Dda i Blant
- Matt Price, Polisi Trafnidiaeth
- Paul Carter, Pennaeth Trafnidiaeth, Gweithrediadau'r Ddinas
- Samantha Dacey, Rheolaeth Rhwydwaith, Tîm Gweithiau Stryd

### Cysylltiadau'r Dyfodol Prifysgol Caerdydd – Tîm Profiad Gwaith

- Alexandra Gregory, Gwirfoddolwraig Interniaeth Prifysgol Caerdydd
- Morgan Lewis, Gwirfoddolwr Interniaeth Prifysgol Caerdydd

### Playing Out

### Trigolion sy'n drefnwyr

- Angharad Booker
- Antonia Morgan
- Cerys Ponting
- Jon Roberts
- Richard Lewis.


Mae *Sut i drefnu sesiynau chwarae'r tu allan ar dy stryd* yn ganllaw gam bob yn gam ar gyfer trefnu sesiynau chwarae ar y stryd, yn seiliedig ar brofiad rhieni a thrigolion ledled y DU.

Mae hwn yn fersiwn o ganllaw Playing Out ar gyfer trigolion yng Nghymru.

# Adnoddau defnyddiol

**Prosiect Play Streets London Play:**
www.londonplay.org.uk/content/30290/our_work/recent_work/play_streets/play_streets

**Hackney Play Association Play Streets:**
www.hackneyplay.org/playstreets/home